Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Beth sy'n gweithio i atal a threchu stigma tlodi?
## Adolygiad cyflym o'r dystiolaeth

**Laura Robertson, Nicola Bowman, Lauren Wilks**
The Poverty Alliance

**John H. McKendrick a Stephen Sinclair**
Scottish Poverty and Inequality Research Unit

Chwefror 2026

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru'n darparu tystiolaeth annibynnol awdurdodol ac arbenigedd i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar ystod eang o heriau polisi ac mae'n canolbwyntio'n fwyaf arbennig ar hyn o bryd ar ei gwaith i ddatblygu meddwl newydd ar lesiant cymunedau, yr amgylchedd a net sero, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae hi'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw o bob cwr o'r byd ac mae'n manteisio ar ei gwaith â Llywodraeth Cymru i hybu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'n galluogi ymchwilwyr yng nghamau cynnar eu gyrfaoedd i gymryd rhan mewn ymchwil polisi berthnasol.

Mae'r Ganolfan yn aelod o What Works Network y DU.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn wcpp.org.uk/cy

## Cyllidwyr Craidd


**Cafodd Prifysgol Caerdydd** ei sefydlu yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys

**Crynodeb** **4**

**Cyflwyniad** **5**

**Nodau a phrosesau'r adolygiad** **6**

Terminoleg 6

Methodoleg yr adolygiad 7

Myfyrdodau ar y llenyddiaeth a'r sail tystiolaeth 8

**Canfyddiadau'r arolwg** **9**

Dyluniad gwasanaethau 10

Diogelu rhag tlodi mewn ysgolion 12

Tai ac adfywio lleol 14

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth 16

Nawdd cymdeithasol 17

Bwyd 18

Dysgu ehangach 20

**Astudiaethau achos** **21**

**Casgliad** **23**

**Cyfeiriadau** **24**

**Atodiad 1: Adolygiad o'r fethodeleg** **28**

**Atodiad 2: Papurau wedi'u cynnwys** **40**

# Crynodeb

» I oleuo dulliau polisi ac ymarfer i fynd i'r afael â stigma tlodi yng Nghymru, mae WCPP wedi comisiynu The Poverty Alliance a'r Scottish Poverty Inequality Research Unit i gynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ar sut y mae stigma tlodi wedi'i atal neu wedi cael sylw mewn polisi ac ymarfer, yn y DU ac yn rhyngwladol.

» Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar un cwestiwn ymchwil: "beth sy'n gweithio i atal a threchu stigma tlodi drwy bolisi ac ymarfer?" Mae tri phapur ar hugain wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn sy'n ymdrin ag ystod o feysydd polisi gan gynnwys tai, cymorth bwyd, nawdd cymdeithasol ac addysg.

» Mae'r dystiolaeth yn yr adolygiad hwn yn cynnwys nifer fechan o ymyriadau sydd wedi'u gwerthuso, a dim ond ychydig iawn ohonynt y gellid eu disgrifio fel gwerthusiad trylwyr. Mae'r adolygiad yn defnyddio tystiolaeth a dysgu sy'n deillio'n bennaf o ymchwil i ystod o ddulliau sydd heb eu gwerthuso.

» Canfuwyd tri dull o ymarfer effeithiol, gyda sawl enghraifft o sut y gellir cyflawni pob un:

- Arferion gweithredol cyffredinol (e.e., awtomeiddio budd-daliadau, dulliau arian parod yn gyntaf, cyffredinoli darpariaeth, lleihau'r 'baich' profi hawl)
- Diwylliannau a gwerthoedd cyffredinol (e.e., ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o dlodi i sicrhau bod gwasanaethau'n deall sut mae'r hyn maent yn ei gynnig yn cael ei dderbyn; egwyddorion sy'n ategu Cost y Diwrnod Ysgol fel urddas, empathi a pharch) a
- Herio stigma'n uniongyrchol (e.e., hyrwyddo dehongliadau a disgrifiadau amgen, nad ydynt yn achosi stigma).

» Mae modd gweld y prif wersi ar gyfer darparu gwasanaethau nad ydynt yn achosi stigma yng ngweithdrefnau pob dydd gwasanaethau effeithiol, h.y. dylai'r ddarpariaeth: gael ei dylunio gyda'r defnyddiwr mewn golwg; ymatebol i'r galw; ac yn seiliedig ar dybiaeth o hawl, cael gwared ar yr angen i asesu neu 'brofi' cymhwystra i gael help.

» Mae'r adolygiad yn gwneud sawl argymhelliad i adeiladu'r sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i atal a threchu stigma tlodi, gan gynnwys canfod a rhannu dysgu i enghreifftiau o arferion lleol a chynnwys stigma tlodi fel mesur o ganlyniad mewn gwerthusiadau ehangach o ymyriadau a gwasanaethau i bobl ar incymau isel.

# Cyflwyniad

Yn 2024, canfu arolwg a oedd yn gynrychioliadol o'r genedl gyfan fod stigma tlodi'n effeithio ar un o bob pedwar oedolyn (24%) yng Nghymru, gyda chyfraddau uwch fyth ymhlith rhai ar incymau isel, pobl anabl, pobl ifanc a rhai sy'n rhentu (Inglis et al., 2024a). Mae'r profiad o deimlo stigma'n ennyn teimladau o gywilydd a 'theimladau drwg' eraill fel ofn a thristwch (Tyler, 2020) ac mae ymchwil wedi dangos bod stigma tlodi'n gysylltiedig ag ystod o effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a llesiant ac y gall atal pobl rhag manteisio ar y cymorth mae ganddynt hawl iddo gan wasanaethau cyhoeddus (Inglis et al., 2023; Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi (CPG), 2023).

Mae'r stigma sy'n rhan o dlodi yn broblem ynddo'i hun, sy'n tanseilio'r strategaethau hynny sy'n ymdrechu i leihau tlodi a lleddfu'r canlyniadau andwyol sy'n gysylltiedig â hynny. Mae Llywodraeth Cymru'n deall hyn, ac mae ganddi nod penodol i drechu stigma tlodi fel rhan o'i Strategaeth Tlodi Plant (Llywodraeth Cymru, 2024). Ac yn y cyd-destun hwn y cafodd yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth a dysgu ar ffyrdd o atal a threchu stigma ei gomisiynu gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno tystiolaeth ymchwil ar drechu a lleihau stigma tlodi, gan ddefnyddio llenyddiaeth o'r DU a thramor a gyhoeddwyd ers 2010. Mae'n cychwyn drwy gyflwyno nodau'r adolygiad a diffiniadau o stigma tlodi sy'n sail i'r adolygiad ac yna ceir disgrifiad byr o'r fethodoleg (ceir trafodaeth fanylach yn Atodiad 1). Yn dilyn hynny, cyflwynir y prif ganfyddiadau.

Cynhaliwyd yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth gan The Poverty Alliance (sydd wedi'u lleoli yn yr Alban) a'r Scottish Poverty and Inequality Research Unit (SPIRU) o Brifysgol Glasgow Caledonian – dau sefydliad sy'n cael eu cydnabod am eu gwaith ar drechu tlodi'n gyffredinol, a herio stigma tlodi, yn benodol.

# Nodau a phrosesau'r adolygiad

Prif nod yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth yw cyfrannu at ymdrechion yng Nghymru i drechu tlodi, drwy ddeall yn well beth yw canlyniadau dulliau polisi ac ymarfer i fynd i'r afael â stigma tlodi. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar un cwestiwn ymchwil: **"Beth sy'n gweithio i atal a threchu stigma tlodi drwy bolisi cyhoeddus ac ymarfer?"**

## Terminoleg

Nid oes un diffiniad o stigma tlodi sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol yn y llenyddiaeth bresennol nac a ddefnyddir mewn polisi ac ymarfer. Yn yr adolygiad hwn, rydym yn defnyddio cysyniad Inglis et al.'s (2019, t. 2) o stigma tlodi fel '… y cyfuniad o'r mathau o stigma a brofir gan bobl sy'n byw ar incymau isel'. Inglis et al. (2024b, t. 1) sy'n datgan bod pedwar math o stigma tlodi:

**Stigma derbyniedig:** math o wahaniaethu sy'n cael ei gyfeirio at unigolyn am fod ganddynt incwm isel. Mae enghreifftiau o stigma derbyniedig yn cynnwys cael eu hamharchu neu eu beirniadu'n annheg gan eraill.

**Stigma a ragwelir**: pryder unigolyn y bydd eraill yn eu trin yn annheg am eu bod ar incwm isel.

**Hunan-stigma:** bydd hyn yn digwydd pan fydd pobl ar incymau isel yn mewnoli stereoteipiau negyddol ac yn eu defnyddio yn eu herbyn eu hunain. Mae'r math hwn o stigma hefyd yn cynnwys elfen affeithiol a all amlygu ei hun fel teimladau o gywilydd.

**Stigma sefydliadol tybiedig:** sy'n ymwneud â theimladau pobl am sut mae pobl ar incymau isel yn cael eu trin gan sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus neu lunwyr polisïau.

# Methodoleg yr adolygiad

Yma rydym yn crynhoi sut yr aethpwyd ati i gynnal yr adolygiad. Ceir gwybodaeth gynhwysfawr a manwl yn Atodiad 1. Ymgymerwyd â'r gwaith rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025.

Ein brîff oedd cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth. Er bod hyn yn golygu derbyn bod cyfyngiadau i gwmpas ac ystod y dystiolaeth a ganfuwyd ac a dadansoddwyd, mabwysiadwyd dull systematig, sy'n dryloyw, sy'n debyg i ddull adolygiad systematig, ac nad fyddai'n peryglu ein safonau. Ein nod oedd canfod 'beth sy'n gweithio, i bwy, o dan ba amodau'.

Cafodd ein dull ei ategu gan ymgysylltiad cynnar ag arbenigwyr yn y pwnc ac arbenigwyr drwy brofiad i lywio datblygiad protocol yr adolygiad, ac adolygiad rhagarweiniol o'r sail tystiolaeth, a gadarnhaodd fod llenyddiaeth eang a oedd yn cyfeirio at 'dlodi' a 'stigma'. Roedd hyn yn cadarnhau'r angen am baramedrau chwilio penodedig iawn i gynhyrchu adolygiad effeithiol.

Dilynodd ein hadolygiad dri cham. Yn gyntaf, cynhaliwyd gwaith cwmpasu cychwynnol o'r llenyddiaeth academaidd ffurfiol ac anffurfiol llwyd i gael dealltwriaeth o amrediad y sail tystiolaeth ar stigma tlodi; ac i allu gwneud penderfyniadau ar y meysydd o sylwedd a fyddai'n cael eu harchwilio yn yr adolygiad o dystiolaeth ei hun. Yn ail, gwnaed gwaith sgrinio aml-gam o'r llenyddiaeth hon i ganfod erthyglau addas i'w defnyddio. Aeth y broses sgrinio drwy bum cam ac arweiniodd at ddewis 11 papur (o'r rhestr gyntaf o 3248 a gafwyd drwy ein chwiliadau), a oedd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, a lle'r oedd stigma tlodi'n brif bwyslais yr erthygl, ac o fewn y rheini lle'r oedd pryder am drechu stigma tlodi drwy bolisi a/neu ymarfer. Canfuwyd hefyd 8 papur o'r llenyddiaeth lwyd a oedd yn werth eu cynnwys. Yn ddiweddarach, cafodd pedair erthygl eu cynnwys ar gais WCPP (Carrick et al., 2017; Murray et al., 2022; Lasky-Fink et al., 2023; The Poverty Alliance, 2024).

I sicrhau bod ein harfarniad yn dilyn dull systematig, mabwysiadwyd Offer Arfarnu Dull Cymysg (MMAT) i asesu ansawdd erthyglau/adroddiadau gyda dyluniadau dulliau ansoddol, meintiol, a chymysg. Roedd yr erthyglau'n cael eu sgorio'n seiliedig ar bum maen prawf, a gellir dyfarnu sgôr rhwng 0 a 5 i bob erthygl, gyda 5 y sgôr uchaf, sy'n dangos bod pob un o'r meini prawf ansawdd wedi'u cyflawni.

# Myfyrdodau ar y llenyddiaeth a'r sail tystiolaeth

Roedd y corff o wybodaeth a grynhowyd gennym yn ein galluogi i ateb cwestiwn yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd cyfyngiadau bob amser wrth wneud adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, a gellir gwneud arsylwadau ar y sail tystiolaeth ehangach:

1. Ychydig yn unig o werthusiadau o ymyriadau sydd â'r nod o drechu stigma tlodi.

2. Mae llenyddiaeth helaeth sy'n ystyried stigma a thlodi. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth sy'n ystyried stigma tlodi yn llawer prinnach. Hefyd, o fewn y llenyddiaeth sy'n ystyried stigma tlodi, rhoddir mwy o sylw i'r achosion a'r canlyniadau, nag i'r datrysiadau.

3. Roedd llawer o'r llenyddiaeth a oedd yn ystyried sut yr oedd stigma tlodi'n cael ei herio'n canolbwyntio ar sut mae unigolion yn ymdopi ac yn gwrthsefyll y stigma tlodi maent yn ei wynebu. Yng nghyd-destun cwestiwn ymchwil yr adolygiad hwn, prin oedd y dysgu a gafwyd o ran polisi ac ymarfer.

4. Roedd llawer o'r papurau a adolygwyd nid yn unig yn dangos dyhead i drechu stigma tlodi, roeddent yn aml yn ymdrechu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhwng effaith benodol y dulliau i fynd i'r afael â stigma tlodi oherwydd mi all canlyniadau positif (lleihau stigma tlodi) gael canlyniad positif anfwriadol ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thlodi'n fwy cyffredinol.

5. Nid yw'r dystiolaeth yn gwahaniaethu rhwng rhoi sylw i wahanol fathau o stigma tlodi (fel y pedwar modd a gynigir gan Inglis et al. (2024b) a nodwyd uchod). Yn ein harfarniad o'r stigma tlodi a gafodd sylw, ni chanfuwyd dim enghreifftiau a oedd yn casglu gwybodaeth am hunan-stigma na stigma sefydliadau tybiedig, heb sôn am roi sylw iddynt.

6. Roedd ein brîff yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar y papurau rheini'n unig lle'r oedd stigma tlodi'n brif ffocws, ac mi allai hynny olygu ein bod wedi methu enghreifftiau diddorol o ddisgrifiadau o sut roedd stigma tlodi'n cael sylw mewn papurau eraill, lle'r oedd mynd i'r afael â stigma tlodi'n bwyslais eilaidd (neu is na hynny). Yn yr un modd, roedd y pwyslais ar ddarparu gwasanaethau'n golygu nad oeddem wedi adolygu sut y rhoddir sylw i stigma tlodi yn achos poblogaethau penodol sy'n profi tlodi.

7. Mae angen cryfhau gwerthuso effaith. Mae erthyglau'n aml yn tanseilio myfyrdodau beirniadol ar uniongyrchedd yr ymyriad; fodd bynnag, mae canfod yr effaith ar stigma'n fater cymhleth; mae'n dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i'r ymyriad, ac mae angen mwy o amser i arfarnu effaith yr ymyriad.

# Canfyddiadau'r arolwg

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyfuno canfyddiadau o'r llenyddiaeth ar ddulliau ac ymyriadau sy'n ceisio atal neu drechu stigma tlodi. Wrth chwilio drwy'r llenyddiaeth daethpwyd o hyd i bum gwerthusiad o ymyriadau/rhaglenni sy'n honni eu bod yn mynd i'r afael â stigma tlodi a gwelwyd rhagor o bapurau empeiraidd ac anempeiraidd a oedd yn cynnwys dysgu ac argymhellion defnyddiol ar gyfer polisi ac ymarfer.

Roedd tri o'r ymyriadau a werthuswyd mewn addysg â phlant oedran ysgol: dau ddull diogelu rhag tlodi mewn ysgolion yn y DU (Mazzoli-Smith a Todd, 2016; Laing et al., 2023; Beeson et al., 2024) ac un rhaglen prydau ysgol am ddim mewn ardaloedd o "dlodi uchel" (ysgolion â chyfran uchel o blant o aelwydydd incwm isel) yn yr UDA (Domina et al., 2024). Roedd y lleill yn ymyriad efelychu tlodi gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (Murray et al., 2022) a gwerthusiad o ymyriad a oedd yn ymdrechu i ddadstigmateiddio cymorth rhent yn yr UDA (Lasky-Fink a Linos, 2023).

Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn deillio o ymchwil empeiraidd, ond roedd hefyd yn cynnwys ymchwiliad (Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi, 2023), adroddiad gan y Joseph Rowntree Foundation a ariannwyd gan dîm Stigma Free Futures Design (Tyler a Campbell, 2024), tystiolaeth a goladwyd mewn gweithdai (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2024), a briffiau polisi/ymarfer (Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, 2023).

Mae'r dystiolaeth yn cael ei chyflwyno fesul thema, gan ymdrin â dyluniad gwasanaethau, diogelu rhag tlodi mewn ysgolion, tai ac adfywio, hyfforddiant, nawdd cymdeithasol a darpariaeth bwyd.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys tabl o'r holl bapurau a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad gan gynnwys gwybodaeth am grwpiau poblogaeth a'r themâu polisi penodol a ystyriwyd.

# Dyluniad gwasanaethau

## Ffactorau i ategu darpariaeth gwasanaethau

Cafodd ymchwiliad diweddar yn yr Alban i stigma tlodi ymateb gan ugain o sefydliadau, gyda sawl un ohonynt yn pwysleisio'r angen i gynnwys pobl â phrofiad bywyd o ran dylunio, gwerthuso a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yr ymatebion hefyd yn argymell y dylai dylunio a chyllido gwasanaethau roi pwyslais ar y defnyddwyr, i ddiwallu anghenion pobl gan roi urddas a pharch iddynt (Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi, 2023). Roedd yr adroddiad yn haeru hefyd y dylai llywodraeth leol, Llywodraethau'r Alban, a'r DU fynd i'r afael â stigma tlodi wrth ddylunio gwasanaethau, gan ddarparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dlodi i staff sy'n delio â'r cyhoedd, a thrwy fuddsoddi mewn gwasanaethau i bobl ar incymau isel.

## Awtomeiddio gwasanaethau a dulliau arian parod yn gyntaf

Roedd enghreifftiau positif o wasanaethau cyhoeddus a oedd yn effeithiol wrth herio stigma tlodi'n cynnwys awdurdodau lleol a oedd yn awtomeiddio gwasanaethau yn ystod y pandemig Covid-19, a gwasanaethau sy'n sefydlu cymorth sy'n seiliedig ar arian parod (Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi, 2023). Meddai'r adroddiad:

**"Mae dull arian parod yn gyntaf yn osgoi stigma, yn grymuso pobl i wneud y dewisiadau gorau i'w haelwydydd a'u teuluoedd, ac sy'n dangos ymrwymiad i gynnwys llais teuluoedd ar incwm isel mewn penderfyniadau polisi sydd â'r nod o drechu tlodi"**

(Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi, 2023: p.37).

Un enghraifft o awtomeiddio effeithiol a nodwyd mewn tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant i'r ymchwiliad yn yr Alban a nodwyd uchod oedd achos lle'r oedd Cyngor Dinas Glasgow yn awtomeiddio prosesau Grant Gwisg Ysgol yn 2017 (drwy gael gward ar yr angen i wneud cais ar wahân am y cymorth hwn yn achos rhai lle'r oedd eu hawl yn amlwg yn sgil cais llwyddiannus am brydau ysgol am ddim). Cyfeiriodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn yr Alban hefyd at effeithiau positif awtomeiddio prydau ysgol am ddim ar rieni yn ystod y pandemig Covid-19, a oedd wedi golygu 'rhyddhad sylweddol' i rieni am nad oeddent yn gorfod llenwi ffurflenni. Yma, mae 'rhyddhad' yn cyfeirio nid at leihau'r baich gweinyddol, ond yn hytrach at effaith dadstigmateddio nifer y troeon yr oedd yn rhaid i rieni wynebu eu statws fel hawlwyr sy'n gofyn am gymorth er mwyn diwallu anghenion eu plant.

Roedd arolwg cyflym o stigma yn achos y defnydd o fanciau bwyd a bwyd fforddiadwy yn Birmingham (DU) wedi argymell gweithredu i leddfu stigma (Cyngor Dinas Birmingham, dim dyddiad). Roedd yr argymhelliad cyffredinol yn pwysleisio'r angen i atal yr angen am fanciau bwyd drwy ddulliau arian parod yn gyntaf – fel darparu budd-daliadau digonol a sicrhau bod mwy o weithwyr yn cael Cyflog Byw – a fyddai'n sicrhau incwm digonol i alluogi dinasyddion i gael dewis wrth brynu bwyd.

Cafodd dulliau arian parod yn gyntaf i leddfu tlodi bwyd eu hyrwyddo gyntaf yn yr Alban gan y prosiect Menu for Change, a oedd yn annog camau a oedd yn rhoi blaenoriaeth i enillion ariannol, fel gwneud y gorau o incwm drwy daliadau arian parod (Independent Food Aid Network, dim dyddiad).

## Cydleoli gwasanaethau

Roedd un astudiaeth ymchwil sydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad hwn yn edrych ar effaith cydleoli gweithwyr cyngor/gwasanaethau mewn tri phractis meddygon teulu yn yr Alban ar leihau stigma (Carrick et al., 2017). Er nad yw astudiaeth Carrick et al. yn cyfeirio'n benodol at 'dlodi stigma', mae pwyslais ar leihau stigma yn achos hawlio budd-daliadau'n berthnasol i'r adolygiad hwn. Roedd yr astudiaeth wedi cynnwys nifer fechan o gleifion (n = 35), gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud bod mynediad at weithwyr cyngor yn gwneud iddynt deimlo llai o stigma a mwy o ymdeimlad o hunanwerth. Gwelwyd fod sawl nodwedd o'r dyluniad yn cyfrannu at leihau stigma, h.y. pan fydd atgyfeiriad uniongyrchol at wasanaethau drwy feddygon teulu a staff eraill y practis meddygol lle mae ganddynt berthynas ymddiriedus eisoes, a phan fyddant yn cael eu helpu gan gynghorwyr na fydd yn beirniadu eu hamgylchiadau.

# Diogelu rhag tlodi mewn ysgolion

Nod y rhaglen Poverty Proofing the School Day yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr (Children North East), a rhaglen y DU gyfan Cost y Diwrnod Ysgol (CoSD) sy'n cael ei rhedeg gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (mewn partneriaeth â Children North East), yw mynd i'r afael â stigma tlodi mewn ysgolion. Mae gwerthusiadau wedi canolbwyntio ar ystod o ganlyniadau mewn ysgolion, ac mae stigma tlodi yn un ohonynt.

## Astudiaeth achos: Cost y Diwrnod Ysgol (CPAG) a Poverty Proofing the School Day (Children North East)

Mae'r ddwy raglen yn gweithio i chwalu rhwystrau rhag dysgu sy'n deillio o fyw mewn tlodi. Mae'r fethodoleg yn y ddwy raglen yn cynnwys archwiliad o'r ysgol sy'n coladu gwybodaeth gan blant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr ar gostau ysgol a stigma tlodi. Mae newidiadau wedyn yn cael eu gwneud i leihau costau ac i fynd i'r afael â stigma yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan. Ymhlith y ffactorau y gellir eu priodoli i lwyddiant y rhaglen mae cefnogaeth a pharodrwydd timau arweinyddiaeth yr ysgolion, a dynodi cyfrifoldeb am ganfod a gweithredu i aelod enwebedig o'r staff (Laing et al., 2023).

Mae ysgolion wedi cyflwyno ystod o ddulliau i ddileu arferion sy'n achosi stigma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Agweddau cyffredinol tuag at ddarpariaeth, fel sicrhau bod brecwastau ar gael i bob disgybl ym mhob dosbarth, a oedd yn golygu nad oedd neb yn gwybod pwy oedd heb gael brecwast cyn cyrraedd.
- Cymerwyd nifer o gamau'n gysylltiedig â gwisg ysgol, gan gynnwys darparu gwisgoedd 'argyfwng' mewn ysgolion, ailgylchu dillad ail-law, a lleihau costau, a oedd i gyd yn ei gwneud yn llai tebygol y byddai disgyblion na allai eu fforddio yn cael eu gadael allan na'u hadnabod.
- Newid cyfathrebu ac iaith (e.e. peidio â thrafod unrhyw gostau na dyledion â disgyblion na rhoi llythyrau dyledion i blant fynd adref â hwy).

Daeth gwerthusiad o'r rhaglen Children North East Poverty Proofing i'r casgliad mai 'un budd pennaf mynd drwy'r broses' i ysgolion oedd 'y cyfle i fyfyrio ar y ffaith bod plant sy'n byw mewn tlodi'n profi stigma sawl gwaith yn ystod y diwrnod ysgol'. Roedd buddiannau ychwanegol CoSD yn cynnwys tystiolaeth o welliant mewn presenoldeb a chyrhaeddiad, mwy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim, diwrnod ysgol a oedd yn llai costus, a chynnydd yn y niferoedd a oedd yn mynd ar dripiau ysgol ac a oedd yn cael gwersi cerdd o blith y disgyblion mwyaf difreintiedig (Mazzoli-Smith a Todd, 2016). Fodd bynnag, nid yw pob ysgol wedi cymryd rhan yn y rhaglen, ac nid yw pob un wedi llwyddo i barhau â dull CoSD. Mater arall sy'n rhaid ei gydnabod yw er bod y rhaglen yn cynnig camau penodol i ysgolion eu cymryd i leihau stigma mewn ysgolion, ni all ysgolion roi sylw i achosion sylfaenol y stigma hwn, ac mi all yr achosion ddod o'r tu allan i'r ysgol.

Er bod y gwaith o werthuso'r gwaith cynharach hwn wedi'i gyfyngu o ganlyniad i Covid-19, canfu gwerthusiad terfynol o'r rhaglen CoSD dystiolaeth o effeithiau positif ar ddisgyblion, teuluoedd ac ysgolion gan gynnwys gwella llesiant plant a theuluoedd, drwy leihau costau mynychu ysgolion, a chryfhau sefydliadau ysgolion drwy strwythurau a phrosesau newydd (Laing et al., 2023).

Mae'r ddau werthusiad o'r rhaglen wedi dangos tystiolaeth o fesurau effeithiol i fynd i'r afael â stigma tlodi. Dywedodd rhieni/gofalwyr fod eu prosiect CoSD wedi arwain at arferion sy'n lleihau stigma i deuluoedd, er enghraifft drwy gyflwyno cynlluniau rhagdalu a mwy o rybudd cyn tripiau ysgol, newidiadau i wisgoedd ysgol i'w gwneud yn rhatach ac yn haws i deuluoedd eu prynu, a newidiadau i nifer, a'r trefniadau ar gyfer dyddiau gwisgo i fyny/i lawr i leihau'r baich ariannol ar rieni/gofalwyr (Laing et al. 2023).

# Tai ac adfywio lleol

Yn wahanol i'r gwaith ar ddylunio gwasanaethau a Chost y Diwrnod Ysgol – a nododd effeithiau positif yn unig – roedd tystiolaeth o effaith ymyriadau i fynd i'r afael â stigma seiliedig ar le (drwy dai ac adfywio ardaloedd) yn gymysg. Cafodd tair astudiaeth a oedd yn edrych ar waith i fynd i'r afael â stigma tai/cymdogaethau eu harfarnu, sef (Carnegie et al. (2018) ar dai cyhoeddus yn Nulyn, Iwerddon, ac Ejiogu a Denedo (2021) ar dai cymdeithasol a stigma yn Lloegr, a Hohle (2023) ar ymgysylltu dinesig yn Buffalo (Cleveland, Ohio, UDA)).

Roedd Ejiogu a Denedo (2021), yn eu hadolygiad o dai cymdeithasol a stigma yn Lloegr, yn haeru nad oes llawer yn hysbys o ran sut mae stigma tai cymdeithasol yn digwydd ac yn cael ei brofi, na sut mae stigma'n cael ei herio mewn tai cymdeithasol. Mae eu hadolygiad o lenyddiaeth ynghyd ag ymchwil ansoddol â rhanddeiliaid yn Lloegr yn edrych sut mae stigma tai cymdeithasol wedi cael sylw drwy'r system gynllunio, drwy hyfforddi staff cymdeithasau tai a chynghorau lleol, a thrwy roi llais i breswylwyr yn natblygiad polisi a gwasanaethau. Fodd bynnag, maent yn dod i'r casgliad mai cyfyngedig oedd llwyddiant pob un o'r tri mesur i leihau stigma tlodi. Maent yn dadlau hefyd bod polisïau a oedd â'r nod o greu cymdogaethau o ddeiliadaethau cymysg a phrosiectau adfywio wedi bod yn aflwyddiannus am eu bod yn rhoi sylw i symptomau stigma yn hytrach na pherthnasoedd pŵer yng nghalon prosesau stigmateiddio, h.y. rhwng landlordiaid a thenantiaid tai cymdeithasol.

Mae Ejiogu a Denedo (2021) o blaid ymdrechion bwriadol ac ar y cyd, sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, i herio stigma mewn tai cymdeithasol, gan gynnig argymhellion ar gyfer polisi a gwleidyddion, y sector tai cymdeithasol, a'r cyfryngau. Roedd argymhellion ar gyfer y sector tai cymdeithasol yn cynnwys creu llais cryf i denantiaid ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac ail-ddylunio trefniadau rheoleiddio a llywodraethu ar gyfer darparwyr i wella atebolrwydd i denantiaid. Ar gyfer y llywodraeth, y prif argymhelliad yw mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau at dai sy'n 'trin mynediad at dai fforddiadwy fel hawl dynol sylfaenol' (Ejiogu a Denedo, 2021, t.8).

Dangosodd archwiliad i effeithiolrwydd cymysgu deiliadaethau ac incwm, i ddadstigmateiddio tair cymdogaeth yn Nulyn a oedd yn arfer cynnwys tai cyhoeddus effeithiau cymysg (Carnegie et al., 2018). Y rhesymwaith wrth wraidd y cynlluniau yw bod cynefindra'n hwyluso dealltwriaeth a bod – yn gydnaws â meddwl y Spirit Level (Wilkinson a Pickett, 2010) – llai o begynnu'n arwain at well canlyniadau i bawb. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth fod effeithiau ar stigmateiddio mewnol (canfyddiadau o stigma mewn cymunedau) a stigmateiddio allanol (y ddelwedd gyhoeddus o gymdogaethau) yn amrywio'n unol ag i ba raddau roedd cymysgu deiliadaeth/incwm wedi digwydd (Carnegie et al., 2018). Dywed Carnegie et al. (2018) mai 'cymysgu incymau' neu 'ddadgrynhoi tlodi' mewn cymdogaethau rhentu cyhoeddus yng Ngweriniaeth Iwerddon yw'r dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir i fynd i'r afael â stigma mewn tai cyhoeddus.

Tynnodd preswylwyr yn un o'r lleoliadau lle'r oedd cymysgu deiliadaethau/incwm wedi digwydd sylw at effeithiau positif ar y ddelwedd o'r gymdogaeth yng ngolwg rhai a oedd yn byw y tu allan iddi. Fodd bynnag, gwelwyd hefyd y gallai cymysgu deiliadaethau yn yr un gymdogaeth fod wedi gwaethygu stigmateiddio mewnol oherwydd 'gwrthdaro sylweddol rhwng preswylwyr preifat a chyhoeddus' (2018, t.16). Mae'r papur yn cloi drwy bwysleisio pwysigrwydd cadw'r cyd-destun economaidd gymdeithasol a'r farchnad dai wrth gynllunio rhaglenni cymysgu deiliadaethau i fynd i'r afael â stigmateiddio tai cymdeithasol. Er enghraifft, mae tystiolaeth o'r ymchwil yn datgelu bod cymysgu deiliadaethau'n anodd mewn ardaloedd â lefelau uchel o stigma lle gall aneddiadau fod yn anodd eu gwerthu.

Edrychodd Hohle (2023) ar ymgysylltu dinesig ar lawr gwlad a gweithredu ar y cyd yn ystod taith flynyddol i ardd yn Buffalo (Cleveland, Ohio, UDA) gan ystyried a oedd hyn yn effeithio ar enw da lle i herio stigmâu a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r digwyddiad yn daith hunan dywys o amgylch gardd sy'n denu miloedd o ymwelwyr. Noda Hohle (2023) mai drwy fynd i'r afael â 'stigma gadawiad' – er enghraifft, drwy gael gwared ar landlordiaid absennol a recriwtio darpar berchnogion tai a oedd yn gofalu am yr eiddo a'r cyffiniau – 'Roedd y teithiau gardd yn creu arwyddion newydd o enw da yn Buffalo i weithio yn erbyn yr hen stigma o Buffalo' (2023, t.204). Fodd bynnag, daw Hohle (2023, t.200) hefyd i'r casgliad fod ymdrechion ar y cyd 'i ail-greu enw da', a ddiffinnir fel 'trafodaethau, naratifau a gweithgarwch cymdeithasol sydd â'r nod o newid delwedd y ddinas yn achos y stigma presennol', sydd wedi'i seilio ar sefydliadau ac amwynderau elitaidd, a bod hynny wedi arwain at ail-greu'r ddelwedd o'r ddinas. Dywed: "Roedd y gweithgarwch i greu enw da yn effeithio ar rai y tu mewn a'r tu allan. Roedd yn creu fframwaith diwylliannol i breswylwyr allu gweld eu hunain a'u dinas yn wahanol i'r stigma" (t.214). Felly, er bod ymyriadau sydd wedi'u seilio ar le yn gallu llwyddo i herio delweddau negyddol o ddinasoedd, nid yw ymyriadau bob amser yn digwydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'r ddinas nac yn annog ailfeddwl o fywydau'r dinasyddion tlotaf; yn hytrach, mae ymyriadau'n dueddol o ganolbwyntio ar ddangos bod modd i weithgarwch 'elitaidd' ffynnu yn yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o stigma.

Rydym yn ymwybodol o gorff ychwanegol o wybodaeth sy'n rhoi pwyslais ar stigma tiriogaethol. Mae'r gwaith hwn yn ystyried sut y gellid newid ffawd cymdogaethau sydd wedi'u stigmateiddio (e.e., rhai a adolygwyd gan Holmes, 2022). Er y gallai'r gwaith hwn arwain at ganlyniadau sy'n debyg i'r rhai a nodwyd uchod ar gyfer Hohle (2023), yn wahanol i astudiaeth Hohle, nid yw'r gwaith hwn yn dueddol o roi pwyslais ar *fynd i'r afael* â stigma fel nod penodol.

# Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Gwelwyd dau bapur hŷn a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol a lleihau stigma tlodi (Gupta, 2015; Beddoe a Keddell, 2016). Er nad yw'r naill bapur na'r llall yn defnyddio'u tystiolaeth empeiraidd eu hunain, mae Beddoe a Kendall (2016) yn defnyddio astudiaethau a oedd yn cynnwys dulliau mewn addysgu gweithwyr cymdeithasol i ddangos y potensial o addysgu myfyrwyr am stigma tlodi.

Mae Beddoe a Keddell (2016) yn edrych ar y defnydd o astudiaethau achos cymhleth a realistig, gan ddod â lleisiau'r 'defnyddiwr gwasanaeth' i'r ystafell ddosbarth a defnyddio dulliau creadigol. Y syniad wrth wraidd y gwaith hwn yw'r disgwyliad y bydd gwybodaeth clinigwyr dan hyfforddiant am heriau byw mewn tlodi'n brin, ac y gallai hynny arwain at arferion ac ymyriadau aneffeithiol sy'n achosi stigma. Gall ymarferiadau sy'n efelychu tlodi helpu ymarferwyr a chlinigwyr i gael empathi a gwybodaeth am y gwahanol ffyrdd y gall tlodi effeithio ar iechyd a llesiant. Mae Beddoe a Keddell (2016) yn cyfeirio at lenyddiaeth arall sydd wedi ystyried sut y gellir ymgorffori lleisiau 'defnyddwyr gwasanaeth' mewn addysgu fel dull dysgu drwy brofiad o ddod â realiti stigma tlodi i addysg myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o effaith yr ymyriadau hyn.

Yn ei phapur disgrifiadol o weithdy ar dlodi a chywilydd, daeth Gupta (2015) ag academyddion, ymarferwyr ac aelodau teuluoedd sy'n byw mewn tlodi ac sydd â phrofiad o wasanaethau amddiffyn plant ynghyd. Y nod oedd datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Yn y gweithdy, bu rhieni'n rhannu profiadau negyddol a phositif o ran tlodi a chywilydd. Roedd y profiadau positif yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn treulio amser â rhieni i ddod i'w hadnabod yn well ac nad oedd yn eu trin fel ymarferiad 'ticio blychau', mewn ffordd a oedd yn gwrthddweud disgwyliadau o gael eu beirniadu a'u beio am eu hamgylchiadau. Roedd hyn yn cynnwys manylion bychain fel gweithwyr cymdeithasol yn derbyn bod llanast mewn ystafelloedd plant yn anochel weithiau, ac nad oedd hynny'n arwydd o rianta gwael. Daeth Gupta (2015) i'r casgliad bod yn rhaid rhoi sylw i sut y gallai pŵer mewn ymarfer gwaith cymdeithasol gael ei ddefnyddio mewn ffyrdd a oedd yn hybu yn hytrach na niweidio urddas pobl a galluoedd aelodau'r teulu.

Yn dilyn argymhelliad gan WCPP, buom hefyd yn arfarnu papur, a oedd yn edrych ar effaith ymarferiad chwarae rhannau a oedd yn efelychu tlodi dros amser (y mae'r awduron yn cyfeirio ato fel dull 'hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol') ar agweddau ymarferwyr gofal iechyd tuag at dlodi (Murray et al., 2022). Fe'i cynhaliwyd yn yr UDA, ac mae'r cyfraddau ymadael yn cyfyngu ar y casgliadau y gellir eu gwneud o'r astudiaeth o ran effeithiau tymor hir. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r Raddfa Agweddau Tuag at Dlodi, mae'r canlyniadau'n dangos gwelliannau mewn sgoriau stigma a oedd yn cael eu cynnal mewn cyfnod o chwe mis ar ôl yr ymyriad. Roedd data ansoddol a gasglwyd yn syth wedyn, ac yna fis ar ôl yr efelychiad, hefyd yn dangos fod y cyfranogwyr yn teimlo bod yr efelychiad wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth, eu trugaredd a'u hempathi, ac wedi lleihau eu beirniadaeth (negyddol) o'u cleifion incwm isel (Murray et al., 2022). Daeth yr awduron i'r casgliad bod angen addysg barhaus i gynnal gwelliannau tymor hir mewn agweddau.

# Nawdd cymdeithasol

Roedd dau bapur yn cynnwys tystiolaeth o fynd i'r afael â stigma tlodi a manteisio ar fudd-daliadau (Lasky-Fink a Linos, 2023; The Poverty Alliance, 2024).

Yn yr UDA, bu Lasky-Fink a Linos (2023) yn edrych ar rôl lleihau stigma ar y galw am gymorth rhent a chanfod fod newidiadau cynnil yn y drefn gyda'r nod o dynnu'r stigma o gymorth rhent wedi cynyddu ymgysylltiad gymaint â 36% a 18% yn nifer y ceisiadau a wnaed, o'i gymharu â grŵp rheolydd. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau cynnil yn yr iaith a ddefnyddid gyda'r nod o dargedu ffynonellau posibl o stigma a ragwelir (sy'n dangos bod y rhaglen wedi'i bwriadu i helpu'r holl breswylwyr cymwys i gael yr help roeddent yn ei haeddu) a stigma wedi'i fewnoli (a oedd yn cynnwys pwysleisio nad oedd neb ar fai am eu bod yn cael anhawster talu eu rhent). Mae'n ddiddorol bod stigma'n cael ei daclo fel ffordd o gynyddu'r niferoedd a oedd yn hawlio budd-daliadau, yn hytrach na mynd i'r afael â stigma am ei fod yn cael ei weld fel problem ynddo'i hun (mynd i'r afael â stigma i gyflawni rhywbeth arall, yn hytrach na'r stigma ei hun),

Yn yr un modd, yn yr Alban, roedd ymchwil panel dinasyddion The Poverty Alliance's (2024) ar effeithiau stigma tlodi ar y niferoedd sy'n manteisio ar fudd-daliadau'n cynnwys sesiynau trafod i ddatblygu a blaenoriaethu set o argymhellion ar gyfer camau y gallai Llywodraeth yr Alban eu cymryd i leihau stigma a chynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau. I oresgyn stigma a chynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau, roedd pobl â phrofiad o gael budd-daliadau yn yr Alban yn galw am:

- Hawl i eiriolaeth sydd wedi'i ariannu'n ddigonol.
- Hyfforddiant ar stigma sy'n gysylltiedig â thlodi ac anghydraddoldeb i wella galluoedd staff rheng flaen a llunwyr polisi.
- Symleiddio prosesau i gael yr hyn sy'n ddyledus iddynt drwy gynyddu awtomeiddio a 'phasbortau' hawliadau e.e. hawl i docynnau bws am ddim.
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd i fynd i'r afael â stereoteipiau negyddol drwy rannu ymwybyddiaeth o pam mae nawdd cymdeithasol yn beth da.
- Gwasanaethau gwybodaeth a chymorth ar gael ar lefel leol a thrwy berthnasoedd ymddiriedus. Awgrymwyd timau iechyd meddwl, gwaith cymdeithasol, a darparwyr iechyd eilaidd neu ofal fel pwyntiau cyswllt defnyddiol i hybu mynediad at nawdd cymdeithasol.
- Newidiadau yn yr iaith sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol, dysgu drwy gamau pwysig a gymerwyd gan Lywodraeth yr Alban a Social Security Scotland.
- Gwybodaeth glir, wedi'i thargedu am yr hawl i fudd-daliadau i bobl sy'n profi cam-drin domestig, gan gynnwys negeseuon gwrth-stigma, sy'n cadarnhau hawliau, fel 'Peidiwch â theimlo cywilydd wrth ofyn am yr hyn mae gennych hawl iddo'.

# Bwyd

Canfuwyd tri phapur yn sgil yr adolygiad a oedd yn cynnwys tystiolaeth am raglenni prydau ysgol am ddim a oedd yn ymdrech i fynd i’r afael â stigma tlodi (CPAG, 2023; Cyngor Dinas Birmingham, dim dyddiad; Domina et al., 2024). Rydym yn ymwybodol o lenyddiaeth helaeth (e.e., gwaith Kayleigh Garthwaite) ar gymorth bwyd sy’n dangos sut mae arferion sefydliadol darpariaeth bwyd y wladwriaeth neu elusennau (amser cyfyngedig, dogni, talebau, asesiadau gan drydydd parti) yn *cynhyrchu* stigma: nid oes llawer o’r un llenyddiaeth yn pwysleisio bod *mynd i’r afael â* stigma yn un o nodau penodol y gwaith. Fodd bynnag, nododd WCPP ddau bapur na chanfuwyd drwy ein chwiliad systematig, a oedd yn rhoi pwyslais ar fynd i’r afael â stigma tlodi drwy gymorth bwyd (Brennan-Tovey et al., 2023; Ranta et al., 2024), a cheir crynodeb ohonynt isod.

Mae briff a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn cynnig datrysiadau i leihau stigma prydau ysgol am ddim, sy’n seiliedig ar ymchwil ag ysgolion a theuluoedd yn Llundain (er nad yw manylion wedi’u rhoi am y fethodoleg a sampl yr astudiaeth). Dywed CPAG (2023, t.1) fod llawer o’r argymhellion yn ‘newidiadau bychain a all wneud gwahaniaeth mawr i brofiad pobl ifanc o fwyd ysgol’. Gall datrysiadau i leihau stigma prydau ysgol am ddim gynnwys mwy o hyblygrwydd a dewis (fel caniatáu i arian prydau ysgol am ddim gael eu defnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol), caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio arian prydau ysgol am ddim ar adeg arall os byddant yn methu cinio, galluogi disgyblion i gasglu pecynnau bwyd ysgol am ddim yn dawel, a sicrhau bod dewisiadau bwyd yn cael eu trefnu a’u prisio fel bod yr holl opsiynau ar gael iddynt.

Yn yr UDA, roedd gwerthusiad Domina et al. (2024) o raglen a oedd yn cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl mewn sampl o ysgolion lle mae cyfran uchel o blant yn byw mewn tlodi, yn edrych ar effeithiau lefelau o waharddiadau disgyblion. Wrth wneud hynny, roedd Domina et al. (2024) yn gweld y rhaglen fel ymyriad ‘sy’n lleddfu ffynhonnell o stigma economaidd gymdeithasol’. Er bod addewid o astudiaeth a oedd yn ymdrechu i fynd i’r afael â stigma tlodi, penderfynodd nad oedd yn mesur nac yn edrych yn benodol a oedd yn mynd i’r afael â stigma tlodi a dywedodd yr awduron na allai eu dadansoddiad wahanu stigma a maethiad fel mecanweithiau ar gyfer effeithiau’r rhaglen.

Roedd dau bapur arall yn canolbwyntio ar stigma tlodi drwy ddarpariaeth bwyd, un drwy hybiau bwyd lleol (Psarikidou et al., 2019) a’r llall drwy ddefnyddio banciau bwyd fforddiadwy (Cyngor Dinas Birmingham, dim dyddiad). Fel y nodwyd eisoes, roedd adolygiad o’r dystiolaeth ar fanciau bwyd yn argymell dulliau sy’n seiliedig ar arian parod i fynd i’r afael a diffyg diogeled bwyd, ac yn yr un modd, mae Psarikidou et al. (2019) yn tynnu sylw at gyfyngiadau hybiau bwyd lleol i oresgyn stigma tlodi. Maent yn dadlau yn eu hastudiaeth bod yr hybiau bwyd yn ymddangos fel pe baent yn ‘meddiannu ac yn atgynhyrchu naratifau presennol stigmateiddio neu hyd yn oed yn galluogi prosesau newydd o stigmateiddio drwy sgyrsiau ac arferion’ a hynny’n bennaf drwy ddefnyddio strategaethau rheoli stigma sy’n seiliedig ar unigolion. Roedd enghreifftiau o alluogi stigmateiddio’n cynnwys ‘meddiannu neu hyd yn oed atgynhyrchu stereoteipiau diffygion mewn gwybodaeth a briodolir i rai sy’n cael cymorth bwyd’ drwy ganolbwyntio ar wella sgiliau coginio a TGCh pobl. Cynigir tystiolaeth o sut y gall banciau bwyd a modelau bwyd fforddiadwy leddfu cywilydd a stigma drwy gynnig amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol croesawgar a phositif (Cyngor Dinas Birmingham, dim dyddiad). Er enghraifft, mae adolygiad gan Gyngor Dinas Birmingham yn dangos tystiolaeth o bwysigrwydd gwirfoddolwyr cyfeillgar a dadstigmateiddio defnydd o fanciau bwyd a modelau eraill o gymorth bwyd (cyfeirir at Bowe et al., 2019).

Rydym yn cydnabod gwaith WCPP, sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ar botensial prydau ysgol am ddim i bawb i leddfu stigma (ac i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio) yn James 2024) a thystiolaeth ym mhapur polisi WCPP ar gymorth bwyd a stigma tlodi (Morgan et al., 2024). Mae James (2024) yn haeru fod darpariaeth i bawb yn lleihau stigma am nad yw wedyn yn cael ei gysylltu â llesiant wedi'i basbortio ac mae'n honni y gallai hyn arwain at amgylchedd dysgu mwy cynhwysol. Yn y cyflwyniad eang i, a'r adolygiad o, stigma tlodi, mae Morgan et al. (2024) yn edrych sut y gall darpariaeth bwyd greu stigma tlodi. Yn y papur polisi hwn dywedir hefyd y gellid mynd i'r afael â stigma tlodi drwy gynnwys pobl â phrofiad bywyd, ail-ddylunio nawdd cymdeithasol, mynd i'r afael â naratifau a sgyrsiau niweidiol, newid iaith sy'n achosi stigma mewn rhaglenni cymorth, a hyfforddiant mewn cymhwysedd diwylliannol.

Cynhaliodd Brennan-Tovey et al. (2023) astudiaeth achos ethnograffig ar raddfa fach i edrych ar brofiadau o 'stigma-pŵer" (Tyler, 2020) a "strategaethau gwrth-stigma" mewn hyb bwyd annibynnol yng ngogledd ddwyrain Lloegr. Canfu'r astudiaeth achos fod defnyddwyr yn defnyddio strategaethau i osgoi stigma a bod yr Hyb yn defnyddio nifer o strategaethau i leihau stigma ymhlith defnyddwyr. Gan wahaniaethu rhwng hunan-stigma a stigma cyhoeddus (rhagfarn a gwahaniaethu), amcan yr astudiaeth oedd edrych sut mae stigma-pŵer yn cael ei ddefnyddio, ei effaith ar ddefnyddwyr, a sut mae'n cael ei herio. Dywedwyd fod hunan-stigma'n cael ei reoli wrth i ddefnyddwyr gyfyngu ar eu defnydd o gymorth bwyd, gan ddefnyddio cymorth bwyd dim ond os oeddent yn gwybod bod gwirfoddolwr roeddent yn eu hadnabod yn gweithio ar y pryd, defnyddio hunan siarad positif i gadarnhau eu bod yn ddefnyddwyr dilys, a gwneud ymdrech i 'osgoi'r stigma'. Roedd yr Hyb yn cydnabod bod stigma'n broblem ac ymdrechwyd i leihau hyn drwy wneud eu cyfleusterau edrych yn llai fel banc bwyd, gan feithrin ymdeimlad bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'r gymuned gan y gymuned, gyda gwirfoddolwyr yn dangos empathi a sensitifrwydd, ac yn cyflwyno eu gwasanaeth mewn ffordd a oedd yn pwysleisio ei rinweddau amgylcheddol (e.e. atal gwastraff bwyd rhag diweddu mewn safleoedd tirlenwi). Er gwaethaf yr addewid a'r potensial, mae'r astudiaeth achos yn cloi gyda galwad am fwy o ymchwil i arfarnu llwyddiant y strategaethau cost isel hyn i herio stigma tlodi.

Mae Ranta et al. (2024) yn edrych ar archfarchnadoedd cymdeithasol, sy'n cael eu cyflwyno fel opsiwn arall heblaw banciau bwyd. Roeddent wedi mabwysiadu ymagwedd sawl dull i edrych ar safbwyntiau defnyddwyr mewn astudiaeth fach a oedd yn canolbwyntio ar ddwy archfarchnad gymdeithasol yn Nwyrain Sussex (De Lloegr). Fel yn achos Brennan-Tovey et al. (2023), roedd sut oedd y gwasanaeth yn cael ei redeg – awyrgylch cyfeillgar, lleoliad a rhyngweithiad cymdeithasol, a darparu cymorth heblaw dosbarthu bwyd – i gyd yn cael clod am helpu i leihau stigma (a hybu urddas). Yn yr un modd, dywedwyd fod darparwyr yn "gwneud ymdrechion gwirioneddol i leihau stigma" drwy gynnig dewis, lleihau rhwystrau rhag mynediad a darparu gofal cymdeithasol. Hyd yn oed wedyn, wrth gloi nodwyd nad oedd y teimladau o embaras i ddefnyddwyr wrth ddefnyddio archfarchnadoedd cymdeithasol diflannu.

## Dysgu ehangach

Amlygwyd pedair ffynhonnell, a oedd yn cynnwys dysgu mwy cyffredinol ar gyfer polisi ac ymarfer ar fynd i'r afael â stigma tlodi, nad oedd yn glynu wrth thema benodol. Roedd dau bapur ymchwil ar brofiadau o stigma tlodi'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau urddas mewn polisïau gwrth-dlodi (Walker et al., 2013; Chen et al., 2020). Mae erthygl ryngwladol a chymharol Walker yn dod i gasgliadau ar fynd i'r afael â stigma tlodi. Mae'n dweud er nad yw 'urddas' yn wrthwyneb perffaith i gywilydd a achosir gan dlodi, dylai polisïau gwrthdlodi sy'n ennyn urddas helpu i hybu hunan-barch (Walker et al., 2013). Mae astudiaeth Chen et al. (2020) ar gywilydd sy'n gysylltiedig â thlodi ymhlith pobl hŷn ar incymau isel mewn ardaloedd trefol yn Tsieina yn argymell creu 'ymyriadau sy'n gysylltiedig â chryfder', gan ddadlau dros bolisïau cymdeithasol sy'n meithrin galluoedd pobl hŷn. Dywed yr awduron hefyd y dylai mesurau gwrthdlodi roi mwy o sylw i hybu cydsefyll cymdeithasol a chyfranogiad cymdeithasol rhai sy'n byw mewn tlodi.

Edrychwyd ar le, iechyd a stigma tlodi mewn cymuned ôl-ddiwydiannol mewn ymchwil â phobl ifanc ym Merthyr Tudful (Thomas, 2016). Yn y papur hwn, honnwyd y bydd rhagor o doriadau gan y llywodraeth yn yr ardal 'yn dwyn mwy o anfri ac yn achosi mwy o stigma i rai sydd eisoes yn teimlo effeithiau tlodi ac anghydraddoldeb' (Thomas, 2016, t.7). Mae Thomas yn cynnig tri argymhelliad allweddol sy'n berthnasol i fynd i'r afael â stigma tlodi. Yn gyntaf, ni ellir lleihau stigma sy'n gysylltiedig â lle heb roi sylw i amodau materol a gwella bywydau pobl yn ogystal â'u cyfleoedd i fyw 'bywyd iach'. Yn ail, dylid mynd i'r afael â stigma sy'n seiliedig ar le hefyd drwy wrthwynebu syniadau poblogaidd am leoedd sy'n profi stigma sy'n cael eu hyrwyddo yn y cyfryngau. Yn olaf, drwy gydweithredu mewn cymunedau, haerir y 'gellir darparu'r adnoddau angenrheidiol [i bobl ifanc] i'w helpu i gyfleu eu pryderon i swyddogion cyhoeddus' (Thomas, 2016, t.7), ac rydym yn dadlau y gallai hynny gael y canlyniad positif anfwriadol o herio unrhyw agweddau sy'n achosi stigma sydd gan y swyddogion rheini.

Cyflwynodd McBride (2024) astudiaeth achos o Glasgow am brosiect theatr a oedd yn cael ei arwain gan bobl ifanc a oedd yn ymdrech i herio stigma seiliedig ar le a thlodi. Roedd y prosiect yn cynnwys pobl ifanc sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn Glasgow a aeth ati i greu drama a oedd yn herio stereoteipiau negyddol am eu cymdogaeth. Gwelwyd fod pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi'n gallu cynhyrchu 'naratifau amgen' am eu cymdogaethau a oedd yn creu empathi a dealltwriaeth o ystod o faterion yn ymwneud â thlodi. Er enghraifft, roedd golygfa yn y ddrama ar ddigartrefedd wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan y bobl ifanc â 'thosturi amlwg' tuag rai â phrofiad o ddigartrefedd a chaethiwed i sylweddau a oedd yn ôl yr awdur yn 'annog y gynulleidfa i fod yn feirniadol o dybiaethau a stereoteipiau'. Noda McBride (2024) mai'r her yw annog y dull hwn sy'n ennyn teimladau o empathi i gyflawni canlyniadau sy'n herio stigma ac mae'n cyfeirio at ddau alluogwr allweddol i wneud hyn: sector gwaith ieuenctid sydd â chyllid a sicrwydd digonol; a chynulleidfa ehangach ar gyfer 'naratifau gwrthsafiad'.. o'r fath. Nododd McBride (2024, t, 1112) er bod ystyried derbyniad y gynulleidfa o'r ddrama y tu hwnt i amcanion yr astudiaeth, roedd y profiad yn amlygu cryfder prif negeseuon y ddrama a daeth i'r casgliad ei bod 'yn hanfodol felly i ystyried sut y gellid codi proffil y naratifau amgen hyn'.

# Astudiaethau achos

Gall gwaith cyhoeddedig ar ymdrechion i herio stigma tlodi gael ei ategu gan gorff o waith a ddisgrifir orau fel ymarfer addawol posibl. Mae sawl astudiaeth achos yn y Tackling Poverty Locally Directory sy'n cyflwyno arferion a gyflwynir fel rhai sy'n mynd i'r afael â stigma tlodi. Mae SPIRU yn gyfrifol am y Cyfeiriadur hwn ac mae'n amlygu gwaith lleol sy'n ymdrech i drechu tlodi, gan roi disgrifiad manwl i ddarpar fabwysiadwyr o bob astudiaeth achos, ac arweiniad sy'n cynnwys gwybodaeth a fyddai'n eu galluogi i efelychu (addasu neu fabwysiadu) yr un dulliau yn eu hardaloedd eu hunain. Er bod effaith bositif llawer o'r astudiaethau hyn wedi'i hategu gan sail tystiolaeth (ceir manylion yn y Cyfeiriadur), mae angen pwyllo cyn ystyried eu mabwysiadu, gan mai diben y Cyfeiriadur yw rhannu pob ymarfer – gan gynnwys gwaith addawol (arwyddion cynnar o effaith bositif), gwaith sy'n dod i'r amlwg (syniadau newydd sydd heb eu gwerthuso eto) ac ymyriadau a oedd yn llai llwyddiannus ond bod dysgu defnyddiol yn deillio ohonynt – ac nid ymarfer yn unig a ddilyswyd fel un sy'n cael effaith. Mae'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfeiriadur wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid ac mae dosbarthiad yr ymarfer fel 'gwaith addawol' a 'gwaith sy'n dod i'r amlwg' wedi'i gadarnhau gan ganolwyr ar sail testun yr astudiaeth achos.

Mae **Think Poverty** yn rhaglen hyfforddi sydd wedi cael ei gweinyddu'n ddiweddar gan Gyngor Falkirk, sy'n ymdrechu nid yn unig i godi ymwybyddiaeth o dlodi ond i "herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi" (SPIRU, n.d.,a). Mae sesiynau misol yn cael eu trefnu â staff presennol a newydd-ddyfodiaid ac maent yn cynnwys gweithgarwch cyllidebu lle mae staff yn cael eu herio i wneud y penderfyniadau mae pobl sy'n profi tlodi'n gorfod eu gwneud. Dywed y trefnwyr fod y rhaglen yn gwella dealltwriaeth y staff, yn cynyddu empathi, ac yn hybu deialog ymhlith staff ar destun tlodi.

Yn yr un modd, mae'r **Fife Stigma Toolkit** yn becyn cymorth traws-asiantaeth sydd wedi'i greu i hybu a gwella arferion ymhlith ystod eang o ddarparwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â phobl sy'n profi tlodi. Mae'r Poverty Alliance (2023) wedi gweithio mewn partneriaeth â Clued Up, Fife Gingerbread, Cyngor ar Bopeth a Rights Fife, a Fife Intensive Rehabilitation a'r tîm Camddefnyddio Sylweddau (Cyngor Fife) i gyflawni'r gwaith. Dywedir fod y pecyn cymorth wedi grymuso defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr i fod yn fwy hyderus yn eu gallu i herio ymddygiadau sy'n achosi stigma, a'u hannog i feddwl am y niwed y gall iaith ei achosi a sut mae'n cyfrannu at stigma.

Yn fwy cyffredinol, un o nodau newid i gymorth "arian parod yn gyntaf" yw lleddfu neu ddileu stigma tlodi a wynebir gan rai a arferai gael buddion mewn nwyddau. Er enghraifft, mae'r **Household Support Fund** (Cyngor Falkirk eto) yn pwysleisio effaith bositif y dull arian parod yn gyntaf hwn i ddileu stigma tlodi, y haerir sy'n angenrheidiol i sicrhau bod aelwydydd sydd dan straen ariannol yn cael yr holl fudd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt.

Yn yr un modd, i ddarparu cymorth heb y perygl o achosi stigma, dywed **Caledonia Funeral Aid** eu bod yn ofalus i beidio â hyrwyddo'i hun fel ymyriad sy'n mynd i'r afael â thlodi, gan ei fod yn darparu gwasanaeth i leihau cost angladdau i rai sy'n byw ar incwm isel, gan weithio i leihau cost angladdau i rai sy'n byw mewn tlodi. Mae hyn yn atgyfnerthu neges graidd adroddiad WCPP o 2022 ar brofiad bywyd, a oedd yn pwysleisio'r angen i osgoi defnyddio 'termau sydd wedi'u seilio ar ddiffyg' ac roedd yn erfyn ar ddarparwyr gwasanaeth i ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar asedau (Carter et al., 2022).

Mae'r **Lived Experience Online Forum** yn grŵp a ffurfiwyd gan Gyngor Aberdeenshire yn cynnwys pobl sy'n profi tlodi yn yr ardal wledig hon yng ngogledd ddwyrain yr Alban. Ei nod yw cynnig ffordd i roi adborth ar "wasanaethau lleddfu tlodi" ac mae'n gweithio i alluogi'r Cyngor i ymateb i heriau byw mewn tlodi i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Un pwynt allweddol yn y Tackling Poverty Locally Directory sy'n deillio o'r gwaith hwn yw ei fod wedi gwneud i'r Cyngor "gryfhau ei ddefnydd o iaith gynhwysol, sy'n lleihau'r pryder a'r stigma o ofyn am help ac sy'n egluro llwybrau cymorth" (SPIRU, n. d.,b).

Yn ystor yr adolygiad, daethon yn ymwybodol o brosiect newydd yn Lloegr sy'n gweithio â phobl sydd â phrofiad bywyd o 'deimlo allan o le' wrth gysylltu â gwasanaethau cymorth. Nod y gwaith hwn yw datblygu pecyn cymorth i gynorthwyo gwasanaethau cymorth i greu amodau cynhwysol (dan arweiniad Dr Rebecca Mead o Brifysgol Lancaster). Hefyd, mae disgwyl i ail gam prosiect **Stigma Free Futures Design** y Joseph Rowntree Foundation gynhyrchu tystiolaeth a fyddai'n berthnasol i fynd i'r afael â stigma tlodi (er bod y prif bwyslais ar atal stigma tlodi). Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd ar ddiogelu gwasanaethau mamolaeth rhag tlodi yng Nghymru a Lloegr, a all – fel yn achos gwaith Cost y Diwrnod Ysgol a adolygwyd yn gynharach – gynhyrchu dysgu newydd ar fynd i'r afael â stigma tlodi.

# Casgliad

Rydym yn cloi'r adolygiad hwn gydag ychydig o negeseuon allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer. Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau yn y sail tystiolaeth presennol, a gadwyd mewn cof wrth ddod i gasgliadau ar yr hyn sy'n gweithio i drechu neu atal stigma tlodi. Mae enghreifftiau hefyd o ymarfer addawol sy'n honni eu bod yn mynd i'r afael â stigma tlodi ac sydd wedi'u cynnwys yn Tackling Poverty Locally Directory, sydd wedi'i leoli yn yr Alban, ond sy'n cynnwys enghreifftiau o weddill y DU a thu hwnt. Yn yr un modd, mae ein hymchwiliad ni wedi defnyddio gwaith perthnasol o lenyddiaeth ryngwladol ac o'r DU.

Mae'r adolygiad yn cynnwys syniadau a dysgu ar ystod o ddulliau o amryw o feysydd polisi gwahanol, sydd i gyd â'r nod o fynd i'r afael â stigma tlodi, gan ystyried i ba raddau mae'r ymyriadau hyn wedi gweithio'n ymarferol. Mae'r negeseuon allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer yn cynnwys:

- Mae dulliau llwyddiannus o fynd i'r afael ac atal stigma tlodi wedi'u hategu gan egwyddorion cyffredin gan gynnwys urddas a pharch, a chynnwys pobl sy'n byw ar incymau isel wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

- Mae gwersi pwysig ar gyfer darparu gwasanaethau nad ydynt yn achosi stigma yng ngweithdrefnau pob dydd gwasanaethau effeithiol, h.y., dylai darpariaeth gael ei dylunio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth mewn cof, sy'n ymateb i'r galw, ac sy'n seiliedig ar dybiaeth o hawl.

- Fodd bynnag, ni ddylid diystyru'r her o drechu stigma – gall stigma fod yn barhaol ac wedi ymwreiddio'n ddwfn, ac nid yw'n realistig i dybio y bydd datrysiadau wedi'u seilio ar ddyluniad yn unig yn dileu stigma tlodi.

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i adeiladu a chryfhau'r sail tystiolaeth ar ddulliau ac ymyriadau i drechu ac atal stigma tlodi:

- **Mwy o arian** i helpu i gynnal gwerthusiadau trylwyr o ddulliau / ymyriadau sy'n ymdrechu i fynd i'r afael â stigma tlodi, sy'n mynd y tu hwnt i werthuso ar ddiwedd yr ymyriad.

- Mynd ati yng Nghymru i **ledaenu dysgu** sy'n deillio o enghreifftiau o ymarfer ar lefel leol mewn rhannau eraill o'r DU sy'n dangos eu bod yn cael effaith bositif i fynd i'r afael â stigma tlodi.

- Dylai **rhagor o arfarnu** stigma tlodi geisio deall sut mae stigma sy'n gysylltiedig â thlodi'n rhyng-gysylltu â'r hyn sy'n deillio o stigmateiddio poblogaethau sydd wedi'u hymyleiddio a phroblemau cymdeithasol eraill.

- **Cynnwys stigma tlodi fel mesur o ganlyniad** wrth werthuso gwasanaethau ac ymyriadau i bobl ar incymau isel.

- **Canfod a gweithio ag arbenigwyr mewn stigma tlodi y tu allan i'r DU** i edrych ar dystiolaeth ac ymarfer yr ymddengys sy'n llwyddo i fynd i'r afael â stigma tlodi y tu hwnt i'r DU.

# Cyfeiriadau


Beddoe, L. a Keddell, E. (2016). **Informed outrage: tackling shame and stigma in poverty education in social work**. *Ethics and Social Welfare*, 10(2), 149–162.

Beeson, M., Wildman, J. M. a Wildman, J. (2024). **Does tackling poverty related barriers to education improve school outcomes? Evidence from the North East of England**. Economics Letters, 236.

Cyngor Dinas Birmingham. (dim dyddiad). **Addressing stigma and shame in use of affordable food models and food banks**. Codwyd o: https://www.birmingham.gov.uk/downloads/file/28176/shame_and_stigma_in_foodbank_use_-_report

Brennan-Tovey, K., Board, E. a Fulton, J. (2023). **Counteracting stigma-power: An ethnographic case study of an independent community food hub**. Journal of Contemporary Ethnography, 52(6). 778-798.

Carnegie, A., Norris, B. a Byrne, M. (2018). **Tenure mixing to combat public housing stigmatisation: External benefits, internal challenge and contextual influences in three Dublin neighborhoods**. Dyfyniadau, 79. 12-17.

Carrick, K., Burton, K. a Barclay, P. (2017). **Forecast Social Return on Investment Analysis on the Co-location of Advice Workers with Consensual Access to Individual Medical Records in Medical Practices.** Codwyd o: https://www.improvementservice.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/9167/SROI-co-location-advice-workers.pdf

Carter, I, Hill-Dixon, A. a Roberts, M. (2022). **Tlodi ac allgau cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyde**. Codwyd o: https://wcpporguk.cf.ac.uk/wp-content/uploads/Poverty-and-social-exclusion-in-Wales-lived-experience-evidence-Policy-briefing-CYM-1.pdf

Chen, Y., Hong, L. a Walker, R. (2020). **Reconstructing Poverty-Related Shame Among Urban Seniors in China: An Exploration of Their Narrated Experiences and a Reflection on Anti-Poverty Interventions.** Applied Research in Quality of Life, 17. 229-249.

Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. (2023). **Improving secondary school food barriers: barriers and solutions.** Codwyd o: https://cpag.org.uk/sites/default/files/2023-08/Improving%20secondary%20school%20food%20provision%20-%20barriers%20and%20solutions.pdf

Domina, T., Clark, L., Radsky, V. a Bhaskar, R. (2024). **There Is Such a Thing as a Free Lunch: School Meals, Stigma, and Student Discipline**. *American* Educational Research Journal, 61(2). 287-327.

Ejiogu, A. a Denedo, M. (2021). **Stigma and Social Housing in England.** Ysgol Fusnes Prifysgol Durham. Codwyd o: dur0721.pdf

Gupta, A. (2015). **Poverty and shame – messages for social work**. Critical and Radical Social Work, 3(1). 131-139.

Halliday, E., Collins, M., Egan, M., Ponsford, R., Scott, C. a Popay, J. (2020). **A 'strategy of resistance'? How can a place-based empowerment programme influence local media portrayals of neighbourhoods and what are the implications for tackling health inequalities?** Health & Place, 63. 102353.

Hohle, R. (2023). **Rusty gardens: stigma and the making of a new place reputation in Buffalo, New York**. American Journal of Cultural Sociology, 11. 193-219.

Holmes, H. (2022). **'Demarginalising' a territorially stigmatised neighbourhood?: The relationship between governance configurations and trajectories of urban change.** Environment and Planning A, 54(6). 1165-1183.

Independent Food Aid Network. (dim dyddiad). **Taking a cash first approach to food insecurity**. Retrieved from: https://www.foodaidnetwork.org.uk/why-cash-first

Inglis, G., Hill-Dixon, A. a Coles-Riley, J. (2024a). **Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Codwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Adroddiad-Codi'r-caead-ar-stigma-tlodi-yng-Nghymru.pdf

Inglis, G., Jenkins, P., McHardy, F., Sosu, E. a Wilson, C. (2023). **Poverty stigma, mental health, and well-being: A rapid review and synthesis of quantitative and qualitative research.** Community and Applied Social Psychology, 33(4). 783-806.

Inglis, G., McHardy, F., Sosu, E., McAteer, J. a Biggs, H. (2019). **Health inequality implications from a qualitative study of experiences of poverty stigma in Scotland.** Soc Sci Med, 232. 43-49.

Inglis, G., Sosu, E., McHardy, F., Witteveen, I., Jenkins, P. a Knifton, L. (2024b). **Testing the associations between poverty stigma and mental health: The role of received stigma and perceived structural stigma**. International Journal of Social Psychiatry, 0(0). doi:10.1177/00207640241296055

James, J. (2024). **Effeithiau Prydau Ysgol am Ddim i Bawb**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Codwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2024/12/Adroddiad-Effeithiau-Prydau-Ysgol-am-Ddim-i-Bawb.pdf

Laing, K., Thomas, U., Tiplady, L. a Todd, L. (2023). **UK Cost of the School Day Final Evaluation – Short Report**. Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Codwyd o: https://cpag.org.uk/sites/default/files/2023-10/UK%20COST%20OF%20THE%20SCHOOL%20DAY%20%20FINAL%20EVALUATION%20Short%20Report.pdf

Lasky-Fink, J. a Linos, E. (2023). **Improving delivery of the social safety net: The role of stigma.** Faculty Research Working Paper Series. Codwyd o: https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=4040234

Mazzoli-Smith, L. a Todd, L. (2016). **Poverty Proofing the School Day: Evaluation and Development Report**. Prifysgol Newcastle. Codwyd o: https://www.nasuwt.org.uk/static/e7dc0e21-39a7-4db9-946d4ae3a8f23279/Poverty-proofing-he-School-Day-Evaluation-and-Development-Report.pdf

McBride, M. (2024). **Young people, place-based stigma and resistance: A case study of Glasgow's East End.** The Sociological Review, 72(5). 1097-1116.

Morgan, C., Coles-Riley, J. a Hill-Dixon, A. (2024). **Mynd i'r Afael â Stigma sy'n Gysylltiediig â Thlodi**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Codwyd o: https://wcpporguk.cf.ac.uk/wp-content/uploads/Briff-Polisi-Mynd-ir-afael-a-stigma-syn-gysylltiedig-a-thlodi-2-1.pdf

Murray, P. M., Sepulveda, A. a Baird, J. (2022). **Longitudinal impact of a poverty simulation on healthcare practitioners' attitudes towards poverty**. Journal of Pediatric Nursing, 64. 24-30.

Psarikidou, K., Kaloudis, H., Fielden, A. a Reynolds, C. (2019). **Local food hubs in deprived areas: de-stigmatising food poverty?** Local Environment, 24(6). 525–538.

Ranta, R., Nancheva, N., Mulrooney, H., Bhakta, D. a Lake, S. (2024). **Access, dignity, and choice: Social supermarkets and the end of the food bank model in the UK?**. Food, Culture & Society, 27(4). 1216-1233.

Grwp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi. (2023). **An inquiry into poverty stigma in Scotland.** Codwyd o: https://www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2023/02/Report-of-the-inquiry-into-stigma-CPG-on-Poverty.pdf

Scottish Poverty and Inequality Research Unit . (n.d.,a). **Think Poverty (Falkirk Council) – raising awareness of the impact of poverty.** Codwyd o: https://www.gcu.ac.uk/aboutgcu/academicschools/gsbs/research/spiru/directory/case-studies/case-study-2

Scottish Poverty Inequality Research Unit. (no date, b). **Fife Stigma Toolkit (throughout UK) – challenging poverty related stigma and informing of best practice at local level.** Retrieved from: https://www.gcu.ac.uk/aboutgcu/academicschools/gsbs/research/spiru/directory/case-studies/055-fife-stigma-toolkit

Scottish Poverty Inequality Research Unit. (no date, c). **Caledonia Funeral Aid (Scotland) – emotional and practical funeral support to tackle funeral poverty.** Retrieved from: https://www.gcu.ac.uk/aboutgcu/academicschools/gsbs/research/spiru/directory/case-studies/caledonia-funeral-aid

Scottish Poverty and Inequality Research Unit . (n.d.,b). **Lived Experiences Online Forum (Cyngor Aberdeenshire) – facilitating a discussion space to gather lived experience feedback on poverty services.** Codwyd o: https://www.gcu.ac.uk/aboutgcu/academicschools/gsbs/research/spiru/directory/case-studies/aberdeenshire-lived-experiences-online-forum

The Poverty Alliance. (2023). **Stigma Toolkit**. Codwyd o: https://www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2023/04/MIWFF-Final-2023-FM.pdf

The Poverty Alliance. (2023). **The impact of stigma on benefit take-up: Report of a Get Heard Scotland Citizens' Panel**. Codwyd o: https://www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2024/05/Get-Heard-Scotland-Report-Impact-of-Stigma-on-Benefit-Take-Up-for-Publication-May-2024-1.pdf

Thomas, G. M. (2016). **'It's not that bad': Stigma, health, and place in a post-industrial community.** Health and Place, 38. 1-7.

Tyler, I. (2020). **Stigma: The Machinery of Inequality**. London: Zed Books.

Tyler, I. a Campbell, S. (2024). **Poverty stigma: a glue that holds poverty in place.** Codwyd o: https://www.jrf.org.uk/stigma-power-and-poverty/poverty-stigma-a-glue-that-holds-poverty-in-place

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (2024). **Gweithdai mynd i'r adael â stigma tlodi.** Codwyd o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2023/10/Crynodebau-Gweithdai-Stigma-Tlodi.pdf

Walker, R., Kyomuhendo, G. B., Chase, E. et al. (2013). **Poverty in Global Perspective: Is Shame a Common Denominator?** Journal of Social Policy, 42(2). 215-233.

Llywodraeth Cymru (2024). **Child Poverty Strategy for Wales 2024**. Codwyd o: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2024/7/5/1720789730/child-poverty-strategy-wales-2024.pdf

Wilkinson, R. a Pickett, K. (2010). **The Spirit Level: Why equality is better for everyone**. Penguin UK.

# Atodiad 1: Adolygiad o'r fethodeleg

## Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Y brîff a gawsom oedd cynhyrchu adolygiad cyflym o'r dystiolaeth. Er bod hyn yn golygu derbyn cyfyngiadau cwmpas ac ystod y dystiolaeth a ganfuwyd ac a gafodd ei dadansoddi, mabwysiadwyd dull systematig gennym, sy'n dryloyw, ac sy'n debyg i adolygiad systematig, nad yw'n cyfaddawdu ar safonau.

## Egwyddorion

Defnyddiwyd dull Realydd wrth ddadansoddi. Mae gwerthusiad realydd yn deall pwysigrwydd cyd-destun. Mae'n gofyn 'beth sy'n gweithio, i bwy, o dan ba amodau'. Mae'n ddull sy'n arbennig o addas i ddysgu gwersi ac i fyfyrio a fyddai modd eu hefelychu. Nid yw gwerthusiadau realydd yn ymdrechu i gynhyrchu atebion pendant, ond maent yn hytrach yn rhoi pwyslais ar fecanweithiau'r rhaglen (perthnasoedd ac adnoddau), sy'n arwain at newid.

## Dull Cyfranogol yr Adolygiad

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r protocol ar gyfer yr adolygiad hwn, mabwysiadodd The Poverty Alliance a SPIRU ddull cyfranogol – gweithio ag arbenigwyr pwnc, arbenigwyr drwy brofiad ac ymarferwyr – i'n galluogi i sicrhau ansawdd ein dull a gwirio rhesymeg ein dealltwriaeth. Cynhaliwyd y cam datblygu hwn yn ystod Medi a Hydref 2024 ac roedd yn cynnwys:

- **Ymgysylltu ag arbenigwyr.** Yng nghamau cynnar dylunio'r adolygiad, cysylltwyd â thri arbenigwr pwnc academaidd sy'n cael eu cydnabod am eu hymchwil i stigma sy'n seiliedig ar dlodi: yr Athro Imogen Tyler (Prifysgol Lancaster), Dr Greig Inglis (Prifysgol West of Scotland) a'r Athro Ben Bamberg Geiger (Kings College London). Prif nod yr ymgysylltu oedd llywio dyluniad a chwmpas yr adolygiad hwn, a chael cyngor ar ba astudiaethau ddylai gael eu cynnwys yn yr adolygiad.

- **Ymgysylltiad profiad bywyd.** Trefnodd y Poverty Alliance weithdy gyda grŵp o arbenigwyr â phrofiad bywyd, a oedd yn sicrhau bod termau'r chwiliad ar stigma tlodi'n adlewyrchu profiad bywyd.

## Y Chwiliad Cychwynnol

Yn sgil chwiliad cychwynnol o ran termau allweddol (heb gyfyngiadau o ran dyddiad), drwy ddefnyddio'r offer chwilio o'n dewis, daethpwyd i'r casgliad, am resymau ymarferol, os am wneud y defnydd gorau o'r adnoddau oedd ar gael mewn adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, y byddai angen cyfyngu chwiliadau'n ofalus ar draws y tair cronfa ddata (Tabl A1).

**Tabl A1: Canlyniadau positif drwy ddefnyddio'r termau chwilio cychwynnol**

| | GCU Discover | | | Social Sciences Premium | | | Google Scholar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Title | Subj. | AnyF. | Title | Abs. | Text | Title | Abs. | Text |
| Tlodi a Stigma | 137 | 1344 | 4349 | 85 | 1298 | 36449 | 188 | N.A. | 580000 |
| Ardal a Stigma | 78 | 1549 | 12995 | 35 | 2909 | 81923 | 107 | N.A. | 1300000 |
| Lle a Stigma | 380 | 1229 | 9758 | 47 | 1454 | 87556 | 99 | N.A. | 1280000 |
| Cymdogaeth a Stigma | 56 | 429 | 1436 | 40 | 504 | 26263 | 38 | N.A. | 166000 |

**Byrfoddau:** Cryn. = Crynodeb / Testun = unrhyw le yn yr erthygl. Teitl = unrhyw le yn nheitl y papur

## Adolygiad Tri Cham o'r Dystiolaeth – Cwmpasu, Sgrinio ac Adolygiad Systematig

Mae adolygiadau systemig o dystiolaeth fel arfer yn cynnwys dau gam: sgrinio, a ddilynir gan adolygiad trylwyr. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys cam cyntaf adolygiad cwmpasu. Roedd dau nod i'r adolygiad cwmpasu hwn: (i) cael dealltwriaeth o ystod y sail tystiolaeth ar stigma tlodi; a (ii) galluogi gwneud penderfyniadau ar y meysydd perthnasol i'w harchwilio yn yr adolygiad o dystiolaeth ei hun.

# Cam Un – Adolygiad Cwmpasu

## Strategaeth chwilio

Chwiliwyd drwy dri chorff o dystiolaeth, h.y., ymchwil ac adolygiadau academaidd, llenyddiaeth lwyd, astudiaethau achos a oedd yn seiliedig ar ymarfer. Mabwysiadwyd dull pwrpasol i'r chwilio yn achos pob un.

Chwiliwyd drwy *bapurau academaidd* drwy ddefnyddio tri chyfrwng: (i) GCU Discover (offer mewnol i chwilio casgliad helaeth Prifysgol Glasgow Caledonian o allbynnau ariannol sydd ar gael i bawb), (ii) Social Sciences Premium Collection (sy'n cynnwys Crynodebau Cymdeithasegol, International Bibliography of the Social Sciences, a Social Services Review, ac mae'n cynnwys ystod eang o ffynonellau llyfryddol a chrynhoi ar draws disgyblaethau gwyddorau cymdeithasol a, (iii) Google Scholar.

Roedd y chwiliad *llenyddiaeth lwyd* yn cynnwys chwiliad agored o Google (cyfyngwyd i'r 200 cynnig cyntaf) a chwiliad pwrpasol o wefannau sefydliadau cymdeithas sifil a nodwyd a allai gynnwys cynnwys yn ymwneud â stigma tlodi. Roedd y rhain cynnwys Sefydliad Bevan, Joseph Rowntree Foundation, Achub y Plant, Oxfam, Nuffield Foundation, Mental Health Foundation, Z2K, y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, the King's Fund, Money and Mental Health Policy Institute, Women's Budget Group, Bristol Poverty Institute, Toynbee Hall, GMVCO.

Chwiliwyd drwy *astudiaethau seiliedig ar ymarfer* gan ddefnyddio Google a chwiliad pwrpasol Tackling Poverty Locally Directory SPIRU.

Penderfynwyd ar y meini prawf cynnwys a gwrthod mewn cydweithrediad â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Tabl A2). Defnyddiwyd y meini prawf hyn yn bwyllog, gydag eithriadau'n cael eu gwneud yn achos gwaith a oedd y tu allan i'r meini prawf cynnwys y barnwyd a oedd 'o bwys eithriadol'. Cynhaliwyd y chwiliadau academaidd rhwng Hydref a Thachwedd 2024 gan ddefnyddio chwe edefyn chwilio (Tabl A2). Roedd y chwiliadau llenyddiaeth lwyd yn defnyddio amrywiad o eiriau o'r edefynnau chwilio hyn. Ategwyd tystiolaeth a gafwyd hefyd drwy ein chwiliadau ffurfiol gan argymhellion a wnaed gan randdeiliaid arbenigol a thîm Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Tabl A2: Meini prawf cynnwys a gwrthod**

| Parth | Cynnwys | Gwrthod |
|---|---|---|
| Cylchrediad | 2010-2024 | Papurau a gyhoeddwyd cyn 2010* |
| Daearyddiaeth | Economïau datblygedig | Papurau o genhedloedd llai datblygedig* |
| Maes perthnasol | I'w benderfynu ar ôl yr Adolygiad Cwmpasu | Papurau y tu allan i'r meysydd diddordeb perthnasol* |
| Iaith | Cyhoeddiadau mewn Saesneg | Cyhoeddiadau mewn ieithoedd heblaw Saesneg, er ein bod yn barod i weithio â WCPP i gynnwys papurau a ysgrifennwyd yn Gymraeg yr ymddengys a oedd o arwyddocâd arbennig |
| Rheoli Ansawdd | Papurau sy'n cyrraedd trothwyon ansawdd TPA/ SPIRU | Erthyglau a phapurau barn lle bernir fod y sail tystiolaeth yn wan. |
| Pwyslais ar stigma | Cynnwys camau i fynd i'r afael â stigma | Papurau nad ydynt yn ystyried datrysiadau stigma tlodi. |

Cafodd y prif chwiliadau hyn eu hategu gan bedwar chwiliad arall: naill ai 'chav' (chwiliad 3), 'poverty porn' (chwiliad 4), 'neighbo??hood sigma' (chwiliad 5) ac 'area or place (chwiliad 6) AND stigma' yn naill ai'r teitl neu'r crynodeb. Barnwyd y byddai'r termau llafar 'chav' (disgrifiad israddol o bobl sy'n profi tlodi) a 'poverty porn' (ffordd o ddisgrifio'r pryder ynglŷn â sut mae carfanau o'r cyfryngau poblogaidd yn portreadu tlodi fel adloniant) yn ffynonellau posibl o lenyddiaeth ar stigma tlodi.

O gofio mai nod yr astudiaeth oedd edrych ar y rhagolygon am ymyriadau wedi'u seilio ar le a pholisïau cenedlaethol/rhanbarthol a ffyrdd o fynd i'r afael â stigma, penderfynwyd edrych ar stigma seiliedig ar le (gyda dealltwriaeth a disgwyliad bod stigma seiliedig ar le'n gysylltiedig ag ardaloedd ag amddifadedd lluosog/anfantais economaidd gymdeithasol). Cafodd tlodi a lle, gyda'i stigma cysylltiedig ei gofnodi drwy chwiliadau 5 a 6, gyda'r chwiliad cymdogaeth wedi'i weinyddu mewn ffordd i gofnodi sillafu'r DU a'r UDA (dyna'r rheswm am y ??).

## Canlyniadau'r chwiliadau

Gyda'i gilydd, arweiniodd y chwe chwiliad at 3,248 o ganlyniadau (Tabl A3).

**Tabl A3: Canlyniadau positif a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad cwmpasu, yn ôl edefyn chwilio**

| | | |
|---|---|---|
| S1 | teitl((poverty OR poor OR deprived OR deprivation) AND (stigma OR stereotype OR shame OR discrimination)) AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 1098 |
| S2 | Abstract(poverty /s stigma) AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 1462 |
| S3 | abstract(chav) OR title(chav) AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 139 |
| S4 | abstract("poverty porn") OR title("poverty porn") AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 53 |
| S5 | abstract("neighbo??hood stigma") OR title("neighbo??hood stigma") AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 68 |
| S6 | title((area OR place) AND stigma) AND stype.exact("Conference Papers & Proceedings" OR "Books" OR "Working Papers" OR "Scholarly Journals" OR "Dissertations & Theses") | 230 |

# Cam Dau – Adolygiad Sgrinio

## Glanhau Data – Dileu Cofnodion Dwbl

Cyn y gellid sgrinio papurau o'r llenyddiaeth academaidd, roedd yn rhaid cael gwared ar 'ganlyniadau dwbl' (gan fod llawer o gynnwys wedi'i gofnodi fwy nag unwaith yn ystod y tri chwiliad a gynhaliwyd). Roedd hyn yn lleihau nifer yr erthyglau posibl i'w hadolygu i 1620 (gwaredu 1628 o 'ddyblau') (Tabl A4).

## Rhan Un – Dosbarthiad Cychwynnol

Aeth y broses sgrinio drwy sawl cam. I ddechrau, roedd hyn yn cynnwys yr Athro McKendrick yn darllen teitl (ac, os oedd angen, crynodeb) o'r papurau academaidd a ganfuwyd drwy'r ymarferiad cwmpasu, a dosbarthu pob un i un o'r pum prif gategori. Nodwyd hefyd os oedd yr erthygl yn perthyn i un o'r categorïau hyn ond nad oedd wedi'i hysgrifennu yn Saesneg (roedd rhai teitlau a Chrynodebau ar gael yn Saesneg ar gyfer erthyglau a oedd wedi'u hysgrifennu mewn iaith arall). Hefyd, roedd erthyglau wedi'u dosbarthu ar wahân os nad oedd yn ymddangos bod y pwyslais ar dlodi a stigma, a rhai a oedd yn adolygiadau o lyfrau.

- Astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar stigma tlodi
- Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi, ond a allai fod yn werth eu hystyried i roi cyd-destun i'r adolygiad
- Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar stigma, ond nid ar stigma tlodi
- Astudiaethau lle mae tlodi, stigma a stigma tlodi'n cael eu hystyried, ond bod gan yr astudiaeth ddiben gwahanol (heb edrych ar stigma tlodi'n benodol)
- Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi (gallai hyn gynnwys astudiaethau ar dlodi nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma)
- Astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar stigma tlodi / mewn iaith heblaw Saesneg
- Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi, ond a allai fod yn werth eu hystyried i roi cyd-destun i'r adolygiad / mewn iaith heblaw Saesneg
- Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar stigma, ond nid ar stigma tlodi / mewn iaith heblaw Saesneg
- Astudiaethau lle mae tlodi, stigma a stigma tlodi'n cael eu hystyried, ond bod gan yr astudiaeth ddiben gwahanol (nid edrych ar stigma tlodi'n benodol) / mewn iaith heblaw Saesneg
- Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi (gallai hyn gynnwys astudiaethau ar dlodi nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma) / mewn iaith heblaw Saesneg
- Erthyglau eraill heb eu dosbarthu mewn iaith heblaw Saesneg
- Adolygiadau o lyfrau

Gan fod pwyslais yr adolygiad hwn ar erthyglau a oedd yn canolbwyntio ar stigma tlodi (a oedd wedi'u hysgrifennu yn Saesneg (roedd yr ymarferiad hwn yn lleihau'n sylweddol nifer yr erthyglau posibl o 1,620 i 266 (Tabl A5). Nododd ymarferiad cyfochrog 29 o bapurau posibl o chwiliadau llwyd a llywodraeth.

**Tabl A4: Dosbarthiad yn dilyn sgrinio cychwynnol o'r erthyglau**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar stigma tlodi | 266 |
| 2 | Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi, ond a allai fod yn werth eu hystyried i roi cyd-destun i'r adolygiad | 41 |
| 3 | Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar stigma, ond nid ar stigma tlodi | 217 |
| 4 | Astudiaethau lle mae tlodi, stigma a stigma tlodi'n cael eu hystyried, ond bod gan yr astudiaeth ddiben gwahanol (heb edrych ar stigma tlodi'n benodol) | 570 |
| 5 | Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi (gallai hyn gynnwys astudiaethau ar dlodi nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma) | 419 |
| 10 | Erthyglau eraill heb eu dosbarthu mewn iaith heblaw Saesneg | 11 |
| 11 | Adolygiadau o lyfrau | 42 |
| 21 | 'Dyblau' – yn y chwiliad, canfuwyd y papur hwn gan fwy nag un chwiliad | 202 |
| 22 | 'Dyblau – yn y chwiliad cyntaf, rhestrwyd y papur hwn fwy nag unwaith o fewn yr un chwiliad | 1426 |
| 1(10) | Astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar stigma tlodi / mewn iaith heblaw Saesneg | 11 |
| 2(10) | Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi, ond a allai fod yn werth eu hystyried i roi cyd-destun i'r adolygiad / mewn iaith heblaw Saesneg | 2 |
| 3(10) | Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar stigma, ond nid ar stigma tlodi / mewn iaith heblaw Saesneg | 8 |
| 4(10) | Astudiaethau lle mae tlodi, stigma a stigma tlodi'n cael eu hystyried, ond bod gan yr astudiaeth ddiben gwahanol (nid edrych ar stigma tlodi'n benodol) / mewn iaith heblaw Saesneg | 12 |
| 5(10) | Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi (gallai hyn gynnwys astudiaethau ar dlodi nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma) / mewn iaith heblaw Saesneg | 20 |

## Rhan Dau – Gwiriadau Sicrhau Ansawdd Erthyglau a Ddosbarthwyd fel rhai y tu Allan i Gwmpas yr Adolygiad

Cafodd ymchwilwyr iau SPIRU eu briffio ar ddiben yr ymchwiliad a'r cynllun dosbarthiad a ddefnyddiwyd i arfarnu darpar erthyglau (Atodiad A4). Dyfarnwyd swp o tua 100 o erthyglau i ddeg ymchwilydd a oedd wedi'u dosbarthu naill ai fel '3' (Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar stigma, ond nid ar stigma tlodi), '4' (Astudiaethau lle mae tlodi, stigma a stigma tlodi'n cael eu hystyried, ond bod gan yr astudiaeth ddiben gwahanol (heb edrych ar stigma tlodi'n benodol)) neu '5' (Astudiaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma tlodi (gallai hyn gynnwys astudiaethau ar dlodi nad ydynt yn canolbwyntio ar stigma) (gweler Tabl A4). Roedd yn rhaid i bob un gydymffurfio â'r dosbarthiad gwreiddiol, neu wneud argymhelliad i newid, a chynnwys eglurhad dros hynny. Cafodd yr argymhellion hyn wedyn eu hail-arfarnu gan yr Athro McKendrick cyn cadarnhau'r dosbarthiadau gwreiddiol i'r erthyglau a ddosbarthwyd yn wreiddiol fel 3,4 neu 5. Fel y dangoswyd yn Nhabl A5, arweiniodd hyn at 12 ailddosbarthiad (celloedd a ddangosir mewn gwyrdd ar gyfer rhesi 3, 4 a 5).

Ni ofynnwyd i ymchwilwyr arfarnu erthyglau a ddosbarthwyd fel 1 a 2 (a fyddai'n cael eu hadolygu ar wahân) na 10,11, 21, 22 nac unrhyw erthygl mewn iaith heblaw Saesneg (gan fod y rhain eisoes wedi'u diystyru) (gweler Tabl A4). Nid oedd yr ailddosbarthu hwn wedi arwain at ychwanegu unrhyw ddarpar erthyglau ar gyfer yr adolygiad ei hun.

**Tabl A5: Ailddosbarthu'n dilyn y sgrinio erthyglau cychwynnol**

| Adolygiad Dosbarthu Gwreiddiol | Dosbarthiad ar ôl yr adolygiad Cwmpasu | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 1B | 2 | 3 | 4 | 5 | 10 | 11 | 21 | 22 | 1(10) | 2(10) | 3(10) | 4(10) | 5(10) |
| 1 | 198 | 22 | 2 | 22 | 20 | 1 | | 1 | | 1 | | | | | |
| 2 | | | 41 | | | | | | | | | | | | |
| 3 | | | | 210 | 6 | 1 | | | | | | | | | |
| 4 | | | | 3 | 542 | 23 | | 2 | | | | | | | |
| 5 | | | | | | 419 | | | | | | | | | |
| 10 | | | | | | | 11 | | | | | | | | |
| 11 | | | | | | | | 42 | | | | | | | |
| 21 | | | | | | | | | 202 | | | | | | |
| 22 | | | | | | | | | | 1426 | | | | | |
| 1(10) | | | | | | | | | | | 11 | | | | |
| 2(10) | | | | | | | | | | | | 2 | | | |
| 3(10) | | | | | | | | | | | | | 8 | | |
| 4(10) | | | | | | | | | | | | | | 12 | |
| 5(10) | | | | | | | | | | | | | | | 20 |
| **Total** | 198 | 22 | 43 | 235 | 568 | 443 | 11 | 43 | 204 | 1427 | 11 | 2 | 8 | 12 | 20 |

**Nodiadau**: Gweler Tabl A4 am ddiffiniadau o'r categorïau a ddefnyddir yn y dosbarthiad.

## Rhan Tri – Gwiriad Sicrhau Ansawdd o Erthyglau a Ddosbarthwyd fel Bod o Fewn cwmpas yr Adolygiad

Cafodd dau Uwch Ymchwilydd SPIRU eu briffio ar ddiben yr ymchwil a'r cynllun dosbarthu a ddefnyddiwyd i arfarnu darpar erthyglau (Atodiad A4). Gofynnwyd i bob ymchwilydd adolygu hanner y 266 o erthyglau a ddosbarthwyd yn wreiddiol fel '1' (ymgeiswyr ar gyfer adolygu oherwydd yr ymddengys eu bod yn canolbwyntio ar stigma tlodi) (Tabl A4). Cafodd yr un deg o ymchwilwyr Iau SPIRU a gwblhaodd y gwiriad ansawdd yn Rhan Dau, gyfran gymesur o erthyglau i'w hadolygu. Felly, cafodd pob un o'r 266 darpar erthygl eu harfarnu gan un o uwch ymchwilwyr ac un o ymchwilwyr iau SPIRU.

Roedd yr adolygiad hwn wedi ymestyn y tu hwnt i arfarniad cyflym o'r teitl a/neu grynodeb. Cwblhaodd bob ymchwilydd Offer Sgrinio Data i gasglu gwybodaeth allweddol am bob erthygl. Os na ellid casglu'r data hyn o'r Teitl a'r Crynodeb, roedd y teitl llawn ar gael iddynt.

- Pwyslais perthnasol
- Grŵp poblogaeth
- Y dull ymchwil a ddefnyddiwyd
- Daearyddiaeth
- Graddfa

Hefyd, gwnaed penderfyniadau'n seiliedig ar:

- y pwyslais ar stigma tlodi yn yr erthygl;
- a oedd achosion stigma tlodi wedi'u hystyried;
- a oedd goblygiadau stigma tlodi wedi'u hystyried;
- a oedd datrysiadau i roi sylw i stigma tlodi wedi'u hystyried.

Bu'r Athro McKendrick yn ystyried y ddau arfarniad o bob erthygl a datryswyd unrhyw wahaniaeth barn i wneud penderfyniad o ran sut yr oedd cynnwys pob erthygl yn cael ei ddisgrifio. Fel y dengys Tabl A5, arweiniodd hyn at ailddosbarthu 47 o ddarpar erthyglau (celloedd glas) a chydnabod nad oedd digon o ddata ar gael yn achos 22 o erthyglau eraill (a ddosbarthwyd fel 1B): darparwyd teitlau ar gyfer yr erthyglau hyn, ond nid oedd crynodebau ar gael i broffilio a chadarnhau'r dosbarthiad. Yn dilyn yr ymarferiad hwn, ymddengys fod 198 yn ddarpar erthyglau i'w hadolygu. Nododd The Poverty Alliance ddwy erthygl arall nad oedd wedi'u cofnodi, ac a ychwanegwyd at y rhestr o ddarpar ffynonellau.

## Rhan Pedwar – Canfod Erthyglau gyda Phwyslais Cryf ar Drechu Stigma Tlodi

Mae offer sgrinio data Rhan Tri wedi arwain hefyd at ganfod yr erthyglau hynny yr ymddengys sydd â phwyslais mwy amlwg ar fynd i'r afael â stigma tlodi.

- Stigma tlodi yw pwyslais pennaf yr erthygl, ac mae'r erthygl yn edrych ar ymatebion i stigma: 61 o bapurau (9 papur llenyddiaeth lwyd a 52 o erthyglau academaidd).
- Stigma tlodi yw prif thema'r erthygl, ac mae'r erthygl yn edrych ar ymatebion i stigma: 86 (12 papur llenyddiaeth lwyd a 74 o erthyglau academaidd).

Ym mis Rhagfyr, cyfarfu tîm y prosiect â WCPP a swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod sut y gellid cyfyngu ar gwmpas yr adolygiad. Dyma pryd y gwnaethpwyd penderfyniad i ganolbwyntio ar erthyglau lle mae stigma tlodi'n brif bwyslais, ond hefyd i wrthod traethodau academaidd, papurau damcaniaethol, erthyglau barn, a sylwebaeth. Roedd hyn yn golygu bod nifer yr erthyglau posibl yn 29.

## Rhan Pump – Sgrinio Testun Llawn Erthyglau lle'r oedd Stigma Tlodi'n Brif Bwyslais ac a oedd yn rhoi Pwyslais ar Drechu Stigma

Yn y newid o sgrinio (cam dau) i adolygiad systemig (cam tri), daeth yn amlwg i'r tîm fod angen rownd o sgrinio testun llawn oherwydd er bod rhai papurau wedi cyflawni'r meini prawf cynnwys ac yr ymddengys o'r teitl a'r crynodeb eu bod yn ddarpar erthyglau, daeth yn amlwg na fyddai pob un yn arwain at ddysgu o ran polisi ac ymarfer ar fynd i'r afael â stigma tlodi. O ganlyniad, cafodd pumed cam a cham olaf ei gyflwyno, h.y., cynhaliwyd sgrinio cyflym testun llawn pob darpar bapur gan dri aelod o'r tîm (gyda phob papur yn cael ei sgrinio gan un aelod o'r tîm). Os oes ansicrwydd ynglŷn â chynnwys neu wrthod, byddai dau aelod o'r tîm yn cwrdd i benderfynu a ddylai'r papurau dan sylw gael eu cynnwys. Erbyn diwedd y broses sgrinio, Nid oedd papurau'n cael eu cynnwys oni bai bod dysgu amlwg ar gyfer polisi ac ymarfer.

Roedd nifer terfynol y ffynonellau a oedd wedi'u cynnwys yn 12 erthygl o gyfnodolion academaidd, 10 testun llenyddiaeth lwyd a phapur gweithio. Roedd hyn yn cynnwys pedwar papur a ganfuwyd gan WCPP ac a ychwanegwyd at yr adolygiad terfynol yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2025.

## Cam Tri – Dethol Data

I ddatblygu offer dethol data, bu tri aelod o'r tîm yn edrych ar ddau bapur yn annibynnol ar ei gilydd i gytuno ar weithdrefnau safonol i ddethol data. Cafodd yr offer dethol data wedyn ei ddatblygu ar y cyd, gan gynnwys y tîm cyfan. Roedd yr offer dethol data'n gwella'r data a gasglwyd drwy'r offer sgrinio data yn gynharach yn y broses sgrinio (cam dau, rhan tri):

1. **Nodau:** roedd datganiad clir o nodau'r papur
2. **Ystyriaethau Moesegol:** a gawsant eu hystyried?
3. **Canfyddiadau:** a oedd datganiad eglur o ganfyddiadau?
4. **Fit – Casglu data/Mater:** a oedd data wedi'u casglu mewn ffordd a oedd yn rhoi sylw i fater yr ymchwil?
5. **Fit – Dyluniad/Nodau:** a oedd dyluniad yr ymchwil yn briodol i roi sylw i'r nodau
6. **Fit – Recriwtio/Nodau:** a oedd y strategaeth recriwtio'n briodol i'r nodau
7. **Methodoleg Briodol:** a oedd methodoleg ansoddol yn briodol
8. **Perthnasoedd Ymchwil:** rhwng ymchwil ac ymchwil wedi cael ystyriaeth ddigonol
9. **Trylwyredd wrth Ddadansoddi:** a oedd y dadansoddi data'n ddigon trylwyr
10. **Damcaniaeth:** A yw sylwadau damcaniaethol yn ddigon clir, cyson a dealladwy
11. **Gwerth yr ymchwil:** pa mor werthfawr yw'r ymchwil

Defnyddiodd dau aelod o'r tîm yr offer i ddethol data a ddau bapur, yn annibynnol ar ei gilydd, ac yna daethant ynghyd i drafod unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r offer. Ar ôl cadarnhau nad oedd angen newidiadau, cwblhawyd gweddill y gwaith dethol data'n unigol. Roedd amrywiaeth eang o ffynonellau a ffurfiau o dystiolaeth yn y llenyddiaeth ac mi oedd hynny'n golygu nad oedd modd dethol y data yn union yr un ffordd bob tro, er eu bod wedi bod yn gyson o ran dilyn proses safonol a thrylwyr.

Dangosir crynodeb o'r broses i ddethol erthyglau academaidd yn Nhabl A6.

**Tabl A6: Erthyglau Academaidd – O chwilio i Arfarnu**

| | Cam | Esboniad |
|---|---|---|
| Cam 1: Cwmpasu | Canfuwyd cofnodion drwy chwilio cronfa ddata *(n = 3248)* | Defnyddiwyd chwe edefyn chwilio mewn tair cronfa ddata, gyda dwy yn ffynonellau cyfunol (GCU Discover a Social Sciences Premium Collection). Google Scholar oedd y drydedd ffynhonnell a chwiliwyd |
| | Cofnodion ar ôl gwaredu dyblygon *(n = 1620)* | Canfuwyd rhai dyblygon o fewn cronfeydd data, ond roedd y rhan fwyaf yn rhai a ganfuwyd mewn mwy nag un gronfa ddata. |
| | Cofnodion ar ôl gwaredu rhai mewn iaith heblaw Saesneg *(n = 1556)* | Fe'u gwaredwyd am resymau ymarferol. Efallai bod dysgu perthnasol yn rhai o'r papurau hyn. |
| | Cofnodion ar ôl gwaredu astudiaethau nad oedd yn amlwg yn canolbwyntio ar stigma tlodi *(n = 266)* | Rownd gyntaf o ddadansoddi cynnwys perthnasol (sgrinio). Arfarnu teitlau a chrynodebau i leihau darpar erthyglau. |
| | Cofnodion ar ôl gwiriad i sicrhau ansawdd i gadarnhau dosbarthiad *(n = 198)* | Ail rownd o arfarnu a chrynhoi teitlau. |
| Cam 2: Sgrinio | Cofnodion ychwanegol a ganfuwyd drwy ffynonellau eraill *(n = 200)* | Nododd y Poverty Alliance ddau bapur nad oedd wedi'u cofnodi wrth sgrinio'r gronfa ddata |
| | Cofnodion ar ôl sgrinio i gadarnhau 'prif bwyslais' ar erthygl a 'phwyslais ar roi sylw i stigma' *(n = 52)* | Arfarniad tîm yr ymchwil o "stigma tlodi" i sicrhau mai dyna yw prif bwyslais yr erthygl, ac mai'r nod yw 'mynd i'r afael â stigma tlodi (ac nid edrych ar achosion a chanlyniadau 'yn unig'). |
| | Cofnodion ar ôl canolbwyntio ar erthyglau cyfnodolion *(n = 29)* | Canfod yr erthyglau sydd wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid |
| Cam 3: Arfarnu | RCofnodion ar ôl sgrinio'r testun llawn yn gyflym *(n = 19)* | Darllen darpar erthyglau'n gyflym. |
| | Cofnodion ar ôl ychwanegu papurau sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol *(n = 25)* | Nododd WCPP chwe phapur nad oedd wedi'u cofnodi yn yr adolygiad. |

# Atodiad 2: Papurau wedi'u cynnwys

| Teitl | Blwyddyn cyhoeddi | Awduron |
|---|---|---|
| Informed outrage: tackling shame and stigma in poverty education in social work | 2016 | Beddoe, L., & Keddell, E. |
| Does tackling poverty related barriers to education improve school outcomes? Evidence from the North East of England | 2024 | Beeson, M., Wildman, J.M. & Wildman, J. |
| Addressing stigma and shame in the use of affordable foodbanks (Rapid Review) | Dim ddyddiad | Cyngor Dinas Birmingham |
| Countering stigma-power: An ethnographic case study of an independent community food hub | 2023 | Brennan-Tovey, K., Board, E. & Fulton, J. |
| Tenure Mixing to Combat Public Housing Stigmatization: external benefits, internal challenges and contextual influences in three Dublin neighbourhoods | 2018 | Carnegie, A., Norris, M., & Byrne, M. |
| Forecast Social Return on Investment Analysis of the Co-location of Advice Workers with Consensual Access to Individual Medical Records in Medical Practices | 2017 | Carrick, K., Burton, K. and Barclay, P. |
| Reconstructing Poverty-Related Shame Among Urban Seniors in China: an Exploration of Their Narrated Experiences and a Reflection on Anti-Poverty Interventions | 2020 | Chen, Y., Hong, L., & Walker, R. |
| Improving Secondary School Food Provision: Barriers and Solutions | 2023 | CPAG |
| There Is Such a Thing as a Free Lunch: School Meals, Stigma, and Student Discipline | 2024 | Domina, T., Clark, L., Radsky, V., & Bhaskar, R. |
| Stigma and Social Housing in England | 2021 | Ejiogu, A. and Denedo, M. |

| Maes Perthnasol | Poblogaeth | Dull | Cyd-destun Cenedlaethol | Sgôr MMAT |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Oedolion Ifanc | Amherthnasol | DU | Amherthnasol |
| Addysg | Plant a phobl ifanc | Meintiol | DU | 4 (awduron wedi nodi posibilrwydd o beth diffyg cydymffurfiaeth gan Ysgolion ymyrraeth) |
| Bwyd | Pawb | Adolygiad | DU | Amherthnasol |
| Bwyd | Defnyddwyr a gwirfoddolwyr gwasanaethau oedolion | Astudiaeth Ethnograffig | DU | 5 |
| Tai | Eraill | Astudiaeth achos | Iwerddon | 2 (gwybodaeth gyfyngedig am ddyluniad a dulliau'r ymchwil) |
| Iechyd | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Dulliau cymysg | DU | Nid yw offer arfarnu MMAT yn cyd-fynd â methodoleg SROI |
| Profiad Bywyd | Pensiynwyr | Cyfweliadau Cychwynnol | Tsieina | 5 |
| Bwyd | Plant | Anhysbys | DU | Dim manylion am fethodoleg |
| Bwyd | Plant | Data Gweinyddol Eilaidd | UDA | 4 |
| Tai | Tai cymdeithasol | Aml-ddull | DU | Amherthnasol |

| Teitl | Blwyddyn cyhoeddi | Awduron |
|---|---|---|
| Poverty and shame – messages for social work | 2015 | Gupta, A. |
| Rusty gardens: stigma and the making of a new place reputation in Buffalo, New York | 2023 | Hohle, R. |
| UK Cost of the School Day Final Evaluation | 2023 | Laing, K., Thomas, U., Tiplady, L. & Todd, L. |
| Improving delivery of the social security safety net: The role of stigma | 2023 | Lasky-Fink, J. a Linos, Elizabeth |
| Young people, place-based stigma and resistance: A case study of Glasgow's East End | 2024 | McBride, M. |
| Longitudinal impact of a poverty simulation on healthcare practitioners' attitudes towards poverty | 2022 | Murray, P. M., Sepulveda, A. & Baird, J. |
| Local food hubs in deprived areas: de-stigmatising food poverty? | 2019 | Psarikidou, K., Kaloudis, H., Fielden, A., & Reynolds, C. |
| CPG on Poverty- Inquiry into Poverty stigma in Scotland | 2023 | Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Dlodi |
| Poverty Proofing the School Day: Evaluation and Development Report | 2016 | Mazzoli-Smith, L. & Todd, T. |
| The impact of stigma on benefit take-up: Report of a Get Heard Scotland Citizens' Panel | 2024 | The Poverty Alliance |
| Access, dignity, and choice: social supermarkets and the end of the food bank model in the UK? | 2024 | Ranta, R., Nancheva, N., Mulrooney, H., Bhakta, D. & Lake, S. |
| 'It's not that bad': Stigma, health, and place in a post-industrial community | 2016 | Thomas, GM. |
| Poverty Stigma: A Glue that Holds Poverty in Place | 2024 | Tyler, I., & Campbell, S. |

| Maes Perthnasol | Poblogaeth | Dull | Cyd-destun Cenedlaethol | Sgôr MMAT |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Eraill | Astudiaeth achos | DU | Amherthnasol |
| Twristiaeth | Eraill | Dull Cymysg | UDA | 5 |
| Addysg | Plant a phobl ifanc | Aml-ddull ansoddol | UK | Dim digon o wybodaeth am fethodoleg wedi'i rhoi |
| Nawdd cymdeithasol | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Hap-arbrawf maes | UDA | 4 |
| Celfyddydau | Oedolion Ifanc | Astudiaeth Achos | DU | 5 |
| Iechyd | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Dulliau cymysg | UDA | 2 (samplo cyfleus a gadael drwy gydol cyfnod yr astudiaeth) |
| Bwyd | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Dulliau cymysg | DU | 4 |
| Stigma Tlodi | Pawb | Ymgynghoriad | DU | Amherthnasol |
| Addysg | Plant a phobl ifanc | Aml-ddull ansoddol | DU | Dim digon o wybodaeth am fethodoleg wedi'i rhoi |
| Nawdd cymdeithasol | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Ansoddol | DU | Amherthnasol |
| Bwyd | Defnyddwyr gwasanaethau oedolion | Holiadur a chyfweliadau | DU | 5 |
| Iechyd | Ieuenctid | Cyfweliadau | DU | 5 |
| Stigma Tlodi | Pawb | Amherthnasol | DU | Amherthnasol |

| Teitl | Blwyddyn cyhoeddi | Awduron |
|---|---|---|
| Gweithdai mynd i'r afael â stigma tlodi | 2024 | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru |
| Poverty in Global Perspective: Is Shame a Common Denominator? | 2013 | Walker, R., Kyomuhendo, Bantebya, G., Chase, E., Sohail, C., Gubrium, E., Nicola, Jy., Lødemel, I., Mathew, L., Mwiine, A., Pellissery, S., & Ming, Y |

| Maes Perthnasol | Poblogaeth | Dull | Cyd-destun Cenedlaethol | Sgôr MMAT |
|---|---|---|---|---|
| Stigma Tlodi | Pawb | Amherthnasol | UK | Amherthnasol |
| Polisi Cymdeithasol (Lleol) | Poblogaeth sy'n profi tlodi | Dadansoddi Dogfen Eilaidd | Profiadau bywyd tlodi mewn 7 gwlad (Uganda, India, Tsieina, Pacistan, De Korea, DU, Norwy) | 5 |

# Yr awduron

**Laura Robertson, Nicola Bowman, Lauren Wilks**
The Poverty Alliance

**John H. McKendrick a Stephen Sinclair**
Scottish Poverty and Inequality Research Unit

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Josh Coles-Riley**

Canolfan Polisi Cymdeithasol Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

# Cydnabod

Hoffem ddiolch i Fiona McHardy, Greig Inglis ac Andrew Williams am adolygu fersiwn gynharach o'r adroddiad hwn ac i'r panel o arbenigwyr am gymryd rhan mewn gweithdy ar-lein i ystyried termau chwilio a strategaeth yr adolygiad.

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd